
DATBLYGU AMLIEITHRWYDD MEWN YSGOLION CYNRADD YNG NGHYMRO: ASESIAD O'R PRIF EFFEITHIAU

CYFLWYNWYD I BRITISH COUNCIL CYMRU
GAN GWMNI YMCHWIL ARAD RESEARCH

Medi 2019

1. Crynodeb Gweithredol.....	4
1.1 Cyflwyniad.....	4
1.2 Methodoleg.....	4
1.3 Prif ganfyddiadau.....	5
1.4 Argymhellion.....	7
2. Cyflwyniad.....	8
2.1 Cyd-destun yr astudiaeth.....	8
2.2 Methodoleg.....	8
3. Canfyddiadau'r astudiaeth.....	10
3.1 Sail resymegol cyflwyno darpariaeth ITM.....	10
3.2 Mathau o ddarpariaeth ITM.....	13
3.3 Effaith darparu ITM.....	16
3.4 Cynaliadwyedd, arfer da a datblygiad ITM yn y dyfodol.....	20
4. Casgliadau ac argymhellion.....	22
Atodiad: Astudiaethau Achos.....	25

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Cyflwyniad

Yn Ionawr 2019 comisiynodd British Council Cymru astudiaeth gan gwmni ymchwil Arad Research i asesu effeithiau cyflwyno ieithoedd rhyngwladol¹ fel rhan o gwricwlwm detholiad o ysgolion cynradd.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru², sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cwmpasu Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol i ddisgyblion rhwng 3-16 oed. Nod strategaeth *Dyfodol Byd-eang* Llywodraeth Cymru yw gwella a hybu Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yng Nghymru ac annog disgyblion i fod yn 'Ddwyieithog +1' o'r cyfnod cynradd.³

Bwriad y gwaith ymchwil yma yw cyfrannu i ddealltwriaeth fwy trylwyr o resymau ysgolion cynradd dros integreiddio ITM i waith dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn ogystal â'u dulliau o gyflawni hynny. Mae'r astudiaeth yn archwilio rhai o'r llwyddiannau a'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu ITM mewn ysgolion cynradd, gan gyfeirio at farn ymarferwyr a dysgwyr ac amlinellu argymhellion o ran darparu ITM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

1.2 Methodoleg

Yng nghanau cyntaf yr astudiaeth gwnaed adlolygiad o'r wybodaeth gefndir am ddatblygiad ITM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chwech o randdeiliaid allweddol; cynrychiolwyr â chyfrifoldeb am ITM o'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, arbenigwr ym maes cyflwyno ITM ar draws y Deyrnas Unedig a chynrychiolydd o Estyn. Ymweliadau neu gyfweiliadau ffôn â 10 o ysgolion cynradd oedd prif elfennau gwaith yr astudiaeth. Defnyddiwyd dull samplu bwriadol ar gyfer yr astudiaeth gan ddewis ysgolion sy'n cyflwyno darpariaeth ITM yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol (2018/19). Bu Arad yn cynnal cyfweiliadau gyda phenaethiaid ysgol, cydlynwyr/athrawon ITM yn ogystal â chynnal sggyrsiau grŵp gyda disgyblion.

¹ Noder bod Ieithoedd Tramor Modern (ITM) ac 'ieithoedd rhyngwladol' yn cyfeirio at yr un meysydd dysgu. Cyfeirir at ITM fel 'ieithoedd rhyngwladol yng nghwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru.

² Llywodraeth Cymru. 2017. [Cwricwlwm newydd i ysgolion:Trosolwg](#)

³ Llywodraeth Cymru. 2015. [Dyfodol Byd-eang, cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern 2015-2020](#) t. 3. Gweler hefyd, adroddiadau'r flwyddyn gyntaf [Datganiad Ysgrifenedig - Dyfodol Byd-eang - blwyddyn ers dechrau ein cynllun](#) a'r ail flwyddyn [Datganiad Ysgrifenedig - Dyfodol Byd-eang - dwy flynedd ers dechrau ein cynllun](#).

1.3 Prif ganfyddiadau

Ffactorau sy'n ysgogi darpariaeth ITM

Mae nifer o ffactorau'n ysgogi datblygiad darpariaeth ITM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae alinio *Dyfodol Byd-eang* gyda'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yng ngwricwlwm newydd Cymru yn ategu'r uchelgais i sicrhau fod pobl ifanc yng Nghymru yn meithrin gallu i ddeall diwylliannau eraill a chydabod pwysigrwydd ITM.

Bu cyfraniad penaethiaid ysgol wrth nodi a chyflwyno cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ITM a chefnogi eu staff i fwrw ymlaen gyda hyn yn ddylanwad allweddol ym mhob un o ysgolion yr astudiaeth. Mae cydlynwyr ITM hefyd yn elwa ar anogaeth penaethiaid sy'n sylweddoli gwerth eu sgiliau a'u dyheadau o ran dysgu ieithoedd; maent yn arwain trwy fonitro cynnydd a nodi darpar gynlluniau partneriaeth a chyfleoedd ariannu. Mae penaethiaid a chydlynwyr ITM fel ei gilydd wedi pwysleisio eu huchelgais i feithrin ysgolion creadigol, dwyieithog neu amlieithog a sicrhau bod disgyblion yn ffynnu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion byd-eang a lle mae addysgu a dysgu ITM yn cymathu'n llwyddiannus gydag ethos a dyheadau rhyngwladol yr ysgol.

Mae ceisiadau ariannu llwyddiannus i nifer o sefydliadau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol wedi sicrhau cefnogaeth ac adnoddau i rai ysgolion; mae hyn yn cynnwys gweithio gyda nifer o sefydliadau i ddatblygu cyfleoedd ITM a sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i athrawon. O ran cefnogi'r dull yma o weithredu, ystyrir bod y consortia addysg rhanbarthol a British Council Cymru wedi bod yn bartneriaid allweddol ac y dylid cynnal y partneriaethau a sefydlwyd gydag ysgolion er mwyn adeiladu ar y cynnydd yma yn y dyfodol.

ITM a'r cwricwlwm newydd

Mae ysgolion wedi manteisio ar yr hyblygrwydd a gynnigir gan y cwricwlwm newydd i feithrin dulliau creadigol o addysgu a dysgu ITM, gan gysylltu dysgu ieithoedd gydag elfennau fel gwyddoniaeth, cerddoriaeth a chelf. Mae athrawon yr ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth effaith yma yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau wrth gyflwyno ITM a thanio diddordeb eu disgyblion. Mewn llawer achos, mae integreiddio ITM yn y cwricwlwm, a sicrhau dysgu 'achlysurol' wedi bod yn elfennau allweddol yng nghynnydd a mwynhad y dysgwyr. Mae manteisio ar gyfleoedd i rannu arfer da gydag ysgolion lleol eraill hefyd yn meithrin partneriaethau cynhyrchiol ac mae defnyddio athrawon ITM o'r sector uwchradd yn y sector cynradd yn cyflwyno cyfleoedd i rannu sgiliau a gwybodaeth.

Mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg wedi adrodd am fuddion cyflysu ITM gydag addysgu a dysgu'r Gymraeg. Disgrifiodd yr athrawon eu defnydd o d dulliau pedagogaidd i helpu disgyblion i weld cysylltiadau rhwng y Gymraeg a ITM, gan edrych ar strwythurau brawddegau a geiriau cytras er mwyn gwella eu sgiliau a chynyddu eu hyder fel dysgwyr iaith. Nododd cydlynwyr ITM bod lle i ddatblygu'r cysylltiadau yma gyda'r Gymraeg ymhellach, a meithrin agweddau cadarnhaol a dyfnhau ymwybyddiaeth y disgyblion o aml-ddiwyllianaeth ac amrywiaeth, sy'n cyd-fynd ag amcanion strategaeth *Cymraeg 2050*.

Mae gan athrawon sy'n cyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd rychwant o arbenigeddau.. Mae gan rai hyfedredd sylweddol yn yr iaith tra bo eraill yn dechrau o'r dechrau ac yn dysgu ochr yn ochr â'r disgyblion. O ganlyniad, mae sicrhau hyfforddiant perthnasol ac adnoddau effeithiol wedi bod yn allweddol i lwyddiant athrawon ar bob lefel ac fe ddylid parhau i annog ac ariannu'r agwedd hyblyg yma tuag at DPP ar gyfer ITM yn y dyfodol. Byddai archwiliad o ITM yn y sector cynradd ledled Cymru yn galluogi nodi cryfderau'r sefyllfa bresennol yn ogystal â'r bylchau mewn sgiliau, gan sicrhau targedu cefnogaeth yn fwy penodol ar gyfer addysgu a dysgu ITM.

Effaith ar ddisgyblion

Mae ysgolion cynradd sydd wedi cyflwyno ITM yn nodi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion, athrawon, yr ysgol drwyddi draw a phartneriaethau rhanbarthol. Nodir bod sgiliau llythrennedd a llafaredd wedi gwella ac roedd pob ysgol yn adrodd am weld cynnydd yn sgiliau cyfathrebu'r disgyblion ac yn eu hawydd i ddysgu. Mae'r ysgolion wedi defnyddio amrywiaeth o dulliau i gyflwyno ITM gan gynnwys cerddoriaeth, rhigymau a gemau. Mae'r athrawon yn nodi fod hyn wedi helpu i danio diddordeb y dysgwyr a bod hynny wedi arwain at fagu hyder a hunan-werth ymysg y disgyblion sy'n cymryd rhan. Mae adborth hanesiol gan staff yn tanlinellu effaith gadarnhaol dysgu ITM ar ddysgwyr mwy galluog a llai abl fel ei gilydd.

Mae rhai ysgolion wedi dechrau monitro cynnydd disgyblion a'r effaith y mae gweithgareddau dysgu ITM wedi eu cael ar gyrhaeddiad disgyblion. Gan mai dim ond yn gymharol ddiweddar y cyflwynwyd ITM mewn ysgolion eraill, mae'n rhy gynnar eto iddynt allu cyflawni unrhyw fonitro arwyddocaol. Mae hwn yn faes y bydd gofyn canolbwyntio pellach arno yn y dyfodol; bydd angen i ysgolion hwb ddatblygu a rhannu dulliau asesu cynnydd a'r effaith y mae'n ei gael ar ddysgwyr.

Partneriaethau

Mae partneriaethau gydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol eraill wedi cynnig cefnogaeth ddefnyddiol i athrawon sy'n cyflwyno ITM ac wedi bod yn fodd i atgyfnerthu gweithgareddau pontio ar gyfer y disgyblion. Wrth fynd i'r afael â dysgu ieithoedd mae'r ysgolion hefyd wedi elwa'n sgil rhannu adnoddau ac arbenigedd trwy'r consortia addysg rhanbarthol, British Council Cymru, sefydliadau rhyngwladol ac ysgolion mewn gwledydd eraill.

Mae potensial yma i ddatblygu a chryfhau cyfleoedd i greu partneriaethau o'r fath ymhellach er mwyn gwella sgiliau staff, cefnogi cyfnewid gwybodaeth am arfer da a chyflwyno ITM yn ehangach ar draws y sector cynradd. Gallai cryfhau rôl ysgolion 'hwb' a chynyddu eu cyllid i hybu ITM a datblygu mwy o bartneriaethau gydag ysgolion uwchradd wrth fanteisio ar arbenigedd athrawon yr ysgolion hynny helpu i ysgogi ehangiad ITM yn y sector cynradd.

Cynaliadwyedd

Mae'n fwriad gan bob un o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth i gynnal neu gynyddu eu darpariaeth ITM trwy gyflwyno'r ddarpariaeth i ddisgyblion blynyddoedd eraill. Mae'r ysgolion yn bwriadu parhau i fanteisio ar adnoddau o ansawdd fel **Cerdd Iaith**, a phlatfformau **Language Nut** a **PowerLanguage**. Fodd bynnag, nododd yr ysgolion bod diffyg amser yn y cwricwlwm wedi creu talcen caled wrth geisio cyflwyno ITM yn gyson ac effeithiol. Nododd rhai penaethiaid ysgol a rhanddeiliaid fod diffyg ymwybyddiaeth a diffyg cyllid ar gyfer hyfforddiant ITM, a allai gynyddu hyder a gallu athrawon yn ogystal â helpu i sicrhau adnoddau, yn her ychwanegol i'r gwaith o gyflwyno ITM yn llwyddiannus.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin dealltwriaeth o bedagogau dysgu ail iaith effeithiol ymysg athrawon cynradd. Awgrymwyd bod angen meithrin dulliau gweithredu mwy strwythredig a systematig i ddatblygiad proffesiynol os yw dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd am ehangu a chynyddu'n arwyddocaol fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd.

Datblygu ITM yn y dyfodol

Nid yw'n ymddangos fod y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol i ddiwallu uchelgais ysgolion cynradd i ddarparu ITM. Mae'n debygol y bydd angen cyllid a chefnogaeth ychwanegol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi i staff, i'w galluogi i fanteisio ar hyfforddiant ac ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi a rhannu arfer da. Mae llwyddiant ac effaith y ddarpariaeth ITM gychwynnol a archwiliwyd gan yr astudiaeth yma wedi sbarduno gweledigaeth am well dulliau gweithredu amlieithog mewn rhai ysgolion. Dylid manteisio ar raglen **Dyfodol Byd-eang** a'r strategaethau a fydd yn ei dilyn i gefnogi hyn, yn ogystal â strategaeth ryngwladol arfaethedig Llywodraeth Cymru.

1.4 Argymhellion

1. Mae cyfraniad penaethiaid ysgol yn allweddol i lwyddiant darpariaeth ITM mewn ysgolion cynradd a dylid targedu ymgysylltu effeithiol gyda nhw wrth hyrwyddo rhaglen *Dyfodol Byd-eang* a'r strategaethau a fydd yn ei dilyn.
2. Dylai'r ymgyrch i hybu ITM mewn ysgolion cynradd annog datblygu dull gweithredu amlieithog lle mae sgiliau'r staff, cyllid a dyheadau disgyblion a rhieni yn caniatáu hynny. Gallai'r agwedd hyblyg yma fod yn rhan o unrhyw strategaeth sy'n dilyn *Dyfodol Byd-eang* a chyplysu gyda chynllunio ar gyfer darpariaeth uwchradd ITM yn y dyfodol.
3. Dylai'r consortia rhanbarthol barhau i hybu arbenigedd athrawon ITM ysgolion uwchradd, meithrin llysgenhadon disgyblion ac ariannu ysgolion hwb i gefnogi'r ymdrech i ehangu ITM yn y sector cynradd.
4. Dylid parhau i gefnogi agwedd hyblyg tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer athrawon cynradd, gan gydnabod bod gwahanol lefelau i'w harbenigedd a'u hyder ym maes ITM. Dylai'r DPP yma ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mewn pedagogau dysgu ail iaith yn ogystal â sgiliau iaith athrawon cynradd.
5. Dylid darparu cefnogaeth benodol i ysgolion cynradd wella ymwybyddiaeth o sut i hybu dysgu ITM 'achlysurol' ar draws y cwricwlwm. Gellir cyplysu hyn gyda dulliau o hybu sgiliau trosglwyddadwy i ddisgyblion.
6. Mae lle i ddatblygu'r cysylltiadau a'r deunydd dysgu rhwng ITM a'r Gymraeg ymhellach er mwyn hybu datblygiad sgiliau trosglwyddadwy'r disgyblion a sicrhau cynnydd tuag amlieithrwydd.
7. Dylai rhannu arfer da wrth ddatblygu systemau monitro i asesu cynnydd disgyblion ac effaith ITM fod yn ffocws i ysgolion hwb yn y dyfodol.
8. Byddai archwiliad cenedlaethol o ddarpariaeth gynradd ITM, a allai adeiladu ar waith a gyflawnwyd eisoes mewn rhai rhanbarthau, yn galluogi gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r drefn bresennol a sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei gyfeirio'n fwy penodol yn y dyfodol. Gallai'r archwiliad hefyd ystyried y galw am adnodd ITM arlein pwrpasol a fyddai'n gyfrwng i ysgolion rannu arfer da wrth ddarparu ITM.
9. Mae gan British Council Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth barhau i gefnogi ysgolion gyda chyrchu hyfforddiant a chyllid ac fe ddylai ganolbwyntio ar hwyluso rhwydweithio rheolaidd a chyfleoedd ariannu ar gyfer ITM.

2. CYFLWYNIAD

2.1 Cyd-destun yr astudiaeth

Yn Ionawr 2019 comisiynodd British Council Cymru astudiaeth gan gwmni ymchwil Arad Research i asesu effeithiau cyflwyno ieithoedd rhyngwladol fel rhan o gwricwlwm deholiad o ysgolion cynradd.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yng Nghymru⁴, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cwmpasu Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol rhwng 3-16 oed. Nod strategaeth *Dyfodol Byd-eang* Llywodraeth Cymru yw gwella a hybu Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yng Nghymru ac annog disgyblion i fod yn 'Ddwyieithog +1' o'r cyfnod cynradd.⁵

Wrth ystyried cyd-destun y polisi hwnnw, mae'r ymchwil yma'n amserol am ei fod yn amcannu i gyfrannu i ddealltwriaeth fwy trylwyr o resymau ysgolion dros integreiddio ITM i ddysgu Cyfnod Allweddol 2 yn ogystal â'u dulliau o gyflawni hynny. Mae hefyd yn archwilio barn penaethiaid ysgol a chydlynwyr ITM am y ffordd mae ITM yn ffitio'n strategol o fewn i drefniadau'r cwricwlwm newydd. Gan nodi barn ymarferwyr a dysgwyr, mae'r astudiaeth yn archwilio rhai o'r llwyddiannau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd; mae'r astudiaeth hefyd yn nodi eu barn am effaith dysgu ieithoedd. Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu argymhellion am gyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

Isod cyflwynir trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae Adran 2 yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau byr o arfer da gyda dolenni i'r pum astudiaeth achos mwy manwl (gweler yr Atodiad). Mae Adran 3 yn cynnwys casgliadau ac argymhellion sy'n cefnogi ymroddiad British Council Cymru i hyrwyddo ITM a rhyngwladoliaeth ehangach yng Nghymru.

2.2 Methodoleg

Gwaith ymchwil wrth ddesg oedd crynswth camau cyntaf yr astudiaeth; yn adolygu gwybodaeth gefndir am ddatblygiad ITM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phump o randdeiliaid allweddol; roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr â chyfrifoldeb am ITM yn y pedwar consortiwm rhanbarthol ac arbennigwr ar gyflwyno ITM ledled y Deyrnas Unedig.

Ymweliadau neu gyfweiliadau ffôn â 10 o ysgolion cynradd oedd prif elfen yr astudiaeth. Defnyddiwyd dull samplu pwrpasol wrth ddewis ysgolion sy'n cyflwyno darpariaeth ITM yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol (2018/19). Gweithiodd y tîm ymchwil gyda British Council Cymru a chynrychiolwyr y consortia rhanbarthol i sicrhau bod y sampl yn cynnwys: nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg; croestoriad o ysgolion o ran eu maint (ar sail niferoedd disgyblion) a'r nifer o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Yn ystod yr ymweliadau gydag ysgolion bu'r ymchwilwyr yn cyfwrdd â phenaethiaid ysgol, cydlynwyr/athrawon ITM yn ogystal â chynnal sgwrsiau grŵp gyda disgyblion. Pan nad oedd yn bosib i ni gynnal sgwrs grŵp gyda disgyblion, gofynwyd iddynt lenwi holiadur byr am eu profiadau o ddysgu ITM yn eu hysgol.

Mae Tabl 1.1 yn cyflwyno crynodeb o gyfranogwyr yr astudiaeth effaith yma. Mae Ffigur 1.1 yn dangos lleoliadau'r ysgolion cynradd a gyfranodd.

⁴ Llywodraeth Cymru. 2017. [Cwricwlwm newydd i ysgolion:Trosolwg](#)


⁵ Llywodraeth Cymru. 2015. [Dyfodol Byd-eang, cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern 2015-2020](#) t. 3.

Tabl 1.1: Crynodeb o gyfranogwyr yr ymchwil

Cyfranogwyr	Nifer a gyfranodd
Rhanddeiliaid allweddol (ee cynrychiolwyr o'r consortia)	5
Penaethiaid Ysgol	9
Cydlynwyr/athrawon ITM	9
Disgyblion (grŵp ffocws neu holiadur)	33

Noder: Mewn rhai ysgolion, yr un person yw pennaeth yr ysgol â'r cyd-lynydd neu'r athro/athrawes ITM.

Ffigur 1.1: Lleoliad yr ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil.



Defnyddiwyd Piktochart i greu'r map

Noder: Fe gyfranodd un ysgol gynradd o'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a labelir uchod i'r astudiaeth (dw ysgol o Fro Morgannwg a Sir Fynwy).

3. CANFYDDIADAU'R ASTUDIAETH

3.1 Sail resymegol dros gyflwyno darpariaeth ITM

Canfyddiadau allweddol sy'n berthnasol i'r sail resymegol dros gyflwyno ITM

Ysgogwyr allanol:

- Pwysigrwydd dylanwad ysgogol rhaglen *Dyfodol Byd-eang*
- Argaeledd cyllid a chefnogaeth arbenigol (ee y consortia, British Council Cymru) ar gyfer prosiectau ITM
- Cyfleoedd i amrywio profiad dysgu disgyblion cynradd sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd

Ffactorau ac elfennau sy'n hwyluso hyn yn yr ysgolion / ledled y clwstr:

- Mae ysgolion yn adeiladu ar sgiliau iaith eu staff
- Prosiectau pontio gydag ysgolion uwchradd a phrosiectau cyfnewid rhyngwladol
- Cyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a llafaredd
- Cysylltiadau gydag ieithoedd cartrefi'r disgyblion

Nodwyd amryw o ysgogiadau a rhesymau am gyflwyno ITM gan yr ysgolion a gyfranodd i'r astudiaeth. Gellir eu dosbarthu naill ai fel ysgogiadau allanol neu fel amodau a oedd yn hwyluso'r broes yn yr ysgolion/ledled y clwstr. Nododd pob un o'r ysgolion bod cyfuniad o ffactorau allanol ac amodau hwyluso yn yr ysgol wedi cyfrannu at sefydlu eu darpariaeth ITM.

Rhaglen *Dyfodol Byd-eang* Llywodraeth Cymru oedd y prif sbardun i gyflwyno darpariaeth ITM yn yr ysgolion. Roedd argaeledd hyfforddiant ac adnoddau trwy raglen *Dyfodol Byd-eang*, ynghyd â chefnogaeth y consortia rhanbarthol, yn sbardun i'r ysgolion dreialu dysgu ieithoedd. Cyfeiriodd nifer o'r ysgolion hefyd at ddylanwad y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd, gan nodi eu bod yn awyddus i ddarparu profiadau dysgu newydd a chyfoethocach sy'n cymathu â phedwar pwrpas y cwricwlwm newydd, yn ogystal â dangos ymroddiad i'r pwrpasau hynny.

Nododd yr ysgolion hefyd fod cymryd rhan mewn prosiectau ITM a ariennir gan sefydliadau rhyngwladol yn ysgogiad i gyflwyno ieithoedd Rhyngwladol. Mewn cyfweiliadau, nododd rhanddeiliaid bod cyflwyno ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lle yn y byd, sydd hefyd yn alinio gyda gweledigaeth y cwricwlwm newydd o ran meithrin 'dinasyddion gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd'.

Yn ogystal â'r ysgogiadau allanol yma, cyfeiriodd penaethiaid ysgol at resymau eraill am ddymuno cyflwyno ieithoedd. Roedd y rhain yn amrywio o fanteisio ar sgiliau sydd gan aelodau staff eisoes, cymryd rhan mewn prosiectau pontio gydag ysgolion uwchradd a chyfoethogi sgiliau llythrennedd a llafaredd disgyblion trwy ddysgu ieithoedd. Bu cyfraniad penaethiaid ysgol wrth ganfod a chyflwyno cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ITM a chefnogi eu staff i fwrw ymlaen â hyn yn ddylanwad allweddol ymhob un o ysgolion ein hastudiaeth.

Mae penaethiaid ysgol yn frwd o blaid amrywio profiadau dysgu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ac mae hynny'n agwedd a rennir gan y cydlynwyr ITM a gyfranodd i'r astudiaeth hefyd.

Nododd sawl pennaeth fod y sgiliau iaith a oedd eisoes gan eu staff yn ffactor neu'n ysgogiad pwysig o ran cyflwyno ITM. Dywedodd un pennaeth mai apwyntiad aelod newydd o staff, a oedd yn siarad Almaeneg, fu'r sbardun i gyflwyno ITM. Ers mis Medi 2018, mae'r athro yma wedi integreiddio Almaeneg i gwricwlwm ei ddsbarth Blwyddyn 4. Mae hefyd yn helpu i redeg clwb Almaeneg allgyrsiol sy'n agored i unrhyw blant o Flynyddoedd 3 i 6. Mewn ysgol arall, roedd y pennaeth a'r cydlynnydd ITM yn raddedigion ITM ac mae eu hangerdd am ieithoedd wedi arwain at gyflwyno Ffrangeg ac Eidaleg ar draws nifer o grwpiau blwyddyn. Mewn ysgol arall, mae aelod o'r staff cymorth yn siarad Almaeneg ac yn helpu i redeg clwb amser cinio poblogaidd.

Er bod hyn, yn ddi-amau, yn ddefnyddiol wrth hybu ITM, canfu'r ymchwil nad yw presenoldeb arbenigwyr iaith mewn ysgol yn rhagamod i gyflwyno na hybu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon heb arbenigedd o'r fath wedi ymroi i arwain y ddarpariaeth ITM, gan fynychu cyrsiau iaith er mwyn gwella eu sgiliau eu hunain.

Mae nifer o ysgolion eraill wedi cyflwyno ITM ar ôl cymryd rhan mewn prosiectau ehangach. Er enghraifft, cymerodd un ysgol ran ym mhrosiect **Cerdd Iaith** (prosiect dan adain British Council Cymru a ariannwyd gan y Paul Hamlyn Foundation a oedd yn defnyddio cerddoriaeth fel cyfrwng i ddysgu ieithoedd) mewn partneriaeth gyda'r consortiwm addysg rhanbarthol, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae sawl ysgol arall wedi sôn am gymryd rhan ym mhrosiectau peilot **Dyfodol Byd-eang**. Derbyniodd ysgol arall £1,500 gan raglen ariannu'r Goethe Institut i brynu **Language Magician**, adnodd ar-lein i hybu dysgu ieithoedd, gyda chefnogaeth gan athrawes ITM a greodd app **Duolingo** ar gyfer yr ystafell ddsbarth.

“Roedd Language Magician yn ffordd hwyliog o ddysgu, achos pan ‘dych chi’n ifancach ‘dych chi eisiau gwneud mwy na dim ond eistedd a ‘sgwennu pethau, ‘dych chi eisiau dysgu mewn ffordd sy’n hwyl, a dw i’n meddwl eich bod chi’n dysgu’n well pan ‘dych chi’n gwneud mwy na dim ond eistedd yno.”

Disgybl

At hyn, mae rhai o'r ysgolion wedi cyfuno ITM gyda'u gweithgareddau pontio gydag ysgolion uwchradd lleol. Fel rhan o brosiect peilot a gyflwynwyd gan y consortiwm addysg rhanbarthol, ffurfiodd un ysgol bartneriaeth gydag ysgol uwchradd leol er mwyn cyflwyno Almaeneg. Bu disgyblion yr ysgol uwchradd yn helpu'r ysgol gynradd gyda'r prosiect, gan ymweld yn wythnosol i ddysgu Almaeneg i Flwyddyn 5 a rhedeg clwb Almaeneg amser cinio i Flwyddyn 6 dan oruchwyliaeth yr athrawes. Cafwyd adroddiadau am fodolau arloesol eraill i gyflwyno ITM fel rhan o'r gweithgareddau pontio rhwng ysgolion: mewn un achos mae aelod o adran ITM ysgol uwchradd yn dysgu Ffrangeg i ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol gynradd fwydo, tra bod ysgol gynradd arall yn cyplysu ITM gyda dyddiau pontio i Flynyddoedd 5 a 6 gydag amryw o ysgolion uwchradd lleol.

I benaethiaid ysgol, mae cyflwyno ITM hefyd yn cymathu ethos eu hysgol gyda'r math o gyfleoedd dysgu y maent am eu darparu ar gyfer eu disgyblion. Nododd un pennaeth fod ITM yn cyd-fynd â dyhead yr ysgol *‘... i fod yn ysgol ddwyieithog, greadigol’* ac wedi eu galluogi i gyflwyno Sbaeneg i Flynyddoedd 5 a 6. Roedd ffocws pennaeth ysgol arall ar bedwar pwrpas y cwricwlwm newydd ac ar feithrin dysgwyr uchelgeisiol a meddylwyr creadigol ac annibynnol, a hyrwyddo dinasyddiaeth Gymreig a dealltwriaeth fyd-eang. Esboniodd fod cyflwyno ITM yn gyfrwng uniongyrchol i hybu amcan yr ysgol i *‘newid agweddau, rhagdybiaethau a datblygu sgiliau iaith a fydd yn eu galluogi i fod yn ddysgwyr gydol oes a dinasyddion byd-eang.’*

CANFYDDIADAU'R ASTUDIAETH

Dyweddod un pennaeth ei bod hi eisiau *'rhoi'r un cyfleoedd i'r disgyblion ac y cawsom ni i weithio ac astudio dramor'*. Mae gweledigaeth yr ysgol hon yn alinio gydag amcanion Llywodraeth Cymru – fel yr amlinellir yn rhaglen *Dyfodol Byd-eang* – ar gyfer cenhedlaeth o ieithyddion ifanc a fydd, yn y dyfodol, yn byw bywydau ffyniannus, cwrdd â phobl ddiddorol a phrofi holl gynnwrf teithio ac anturio.

Dyweddod nifer o ysgolion fod dysgu ieithoedd yn cefnogi eu hymdrechion i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, amrywiaeth a chynhwysiad ymysg y disgyblion. Nododd un cydlynnydd ITM fod yr ysgol *'wastad wedi bod yn gefnogol o ieithoedd cartrefi a chymunedau disgyblion yr ysgol, a bod ITM yn cyd-daro â hyn'*. Clywodd yr ymchwilwyr am nifer o enghreifftiau o wersi sy'n cyfuno'r Saesneg (a'r Gymraeg) gydag ieithoedd rhyngwladol eraill – wrth ddefnyddio themau dysgu fel rhan o weithgareddau cyfoethogi. Cafwyd crynodeb o ddull gweithredu o'r fath gan un ysgol fel rhan o werthusiad mewnol:

"Cyflwynodd yr ysgol wers ar y testun, 'fruits et légumes', fel rhan o weithgareddau wythnos llesiant. Ymatebodd y disgyblion i fewnbwn yr athro yn Ffrangeg ac yn Gymraeg, gyda rhywfaint o Saesneg yn ystod y sesiwn rhagarweiniol. Yn ogystal, fe estynnodd yr athro wahoddiad i'r disgyblion rannu enwau ffrwythau yn yr ieithoedd y maent yn eu siarad yn eu cartrefi, fel Pwyleg a Thamil. Roedd y wers yn gyfle i ddisgyblion ddangos eu sgiliau amlieithog, [gan symud] yn ddi-dor a hyderus rhwng ieithoedd. Roedd cyflwyno ieithoedd cartrefi'r disgyblion yn elfen gadarnhaol ac arloesol sy'n dathlu amlieithrwydd. Roedd y disgyblion i'w gweld yn falch o'u cyfraniadau.

Dyfyniad o werthusiad mewnol o wersi Ffrangeg, yn ymgorffori'r Gymraeg ac ieithoedd cartrefi/cymunedau ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

Ar drywydd tebyg, defnyddiodd ysgol gynradd arall famieithoedd rhai o'u disgyblion wrth gyflwyno rhagflas o ieithoedd fel Iseldireg, Pwyleg a Siapaneg.

"Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig i [ddisgyblion] ddeall fod yna fyd mawr allan yna [...] ac rydyn ni wastad wedi ceisio dathlu ieithoedd cartrefi ein disgyblion."

Pennaeth Ysgol

Mae ysgolion wedi derbyn cefnogaeth gan sefydliadau fel y consortia rhanbarthol a British Council Cymru a thrwy hynny wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol i gyflwyno ITM. Er enghraifft, gwnaeth un ysgol gais llwyddiannus am gyllid ychwanegol (£2,000) i'r Goethe Institut, a dalodd am yr app dysgu, *Learning Nut*, a galluogi'r cydlynnydd ITM i ymweld ag ysgolion eraill i ddysgu am eu profiadau nhw o ddarparu ITM. Mae'r Goethe Institut hefyd yn ariannu ymweliad i saith o ddisgyblion â'r Institut yn ystod Haf 2019.

3.2 Mathau o ddarpariaeth ITM

Canfyddiadau allweddol

Mathau o ddarpariaeth ITM:

- Mae ysgolion yn cymathu ITM â'r cwricwlwm newydd trwy ddulliau creadigol o ddysgu ieithoedd
- Mae sgiliau dysgu Cymraeg yn cael eu cyplysu gyda dysgu ieithoedd eraill
- Cysylltiadau gydag ysgolion rhyngwladol yn hybu sgiliau athrawon a disgyblion
- Defnyddir amrywiaeth o raglenni digidol i annog dysgwyr

Cyfeiriodd pob un o'r ysgolion a gafodd eu cyfnewid at y modd y mae trefniadau'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno ITM a sut y gellir cyplysu hynny gyda dysgu cyffredinol a chynnydd y disgyblion. Nodwyd bod y gogwydd mwy hyblyg yma at gynllunio cwricwlwm ysgolion yn golygu eu bod yn gallu teilwra dulliau dysgu a chynnwys elfennau diwylliannol penodol sy'n creu cyfleoedd i archwilio gwahanol ieithoedd mewn gwahanol ffyrdd a chyd-destunau. Hefyd, nodwyd y dimensiwn rhyngwladol sy'n greiddiol i'r cwricwlwm newydd yn rhinwedd yr ymroddiad i feithrin 'dinasyddion moesegol gwybodus yn y byd'; awgrymwyd fod hyn yn ei gwneud hi'n ofnol i ysgolion, gan gynnwys ysgolion cynradd, i roi pwyslais ar ddysgu disgyblion am ieithoedd a diwylliannau eraill.

I ysgolion eraill, mae lle i gyplysu sgiliau dysgu'r iaith Gymraeg gyda dysgu iaith arall. Nododd ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg eu bod yn elwa wrth gyplysu ITM gydag addysgu a dysgu'r Gymraeg. Nododd un athrawes Gymraeg fod y plant wedi esbonio wrthi beth oedd geiriau cytras wedi iddynt fod yn eu trafod mewn gwrs Almaeneg. Roedd cydlynwyr ITM yn tanlinellu gwerth apiau ac adnoddau ITM y gellir eu cyplysu gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg; roedd gemau a cherddoriaeth yn effeithiol iawn ar gyfer hynny. O ran yr ysgolion, mae hyn i gyd yn rhan o ddull ehangach o hybu diddordeb disgyblion mewn diwylliannau eraill tra hefyd yn dathlu eu diwylliannau eu hunain.

“Mae elfennau tebyg rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg o ran strwythur brawddegau a'r gwahaniaeth rhwng enwau gwrywaidd a benywaidd. Ac rydyn ni'n teimlo fod plant yn gallu amsugno'r cyfan, a'u bod yn mwynhau'r profiad. Os ydyn nhw'n derbyn ychydig bach, yn rheolaidd, o gyfnod cynnar, bydd ganddynt hanfodion trydedd iaith erbyn iddynt symud ymlaen i addysg uwchradd.”

Cydlynwyr ITM

“Rwy'n teimlo y dylem ni eu trochi mewn cymaint o wahanol ieithoedd ag y gallwn. Mae fy nghynllun i'n golygu cyflwyno Ffrangeg i Flynyddoedd 3 a 4, gan symud at Almaeneg gyda Blynyddoedd 5 a 6 – gan ein bod ni'n cael ychydig bach mwy o ryddid i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a gan ei fod yn rhan mor allweddol o Feysydd Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Rydyn ni eisiau bod yn rhan o'r elfen ryngwladol honno.”

Pennaeth Ysgol

CANFYDDIADAU'R ASTUDIAETH

Disgrifiodd ysgolion amrywiaeth fawr o ddulliau creadigol o gyflwyno rhychwant o ieithoedd i wahanol grwpiau blwyddyn. Mae'r dulliau yma'n dangos potensial defnyddio dulliau arloesol i gyflwyno ITM, gan gynnwys cyflawni dysgu traws-gyfnod trwy bartneriaethau gydag ysgolion uwchradd a meithrin cysylltiadau gydag ysgolion rhyngwladol. Mae rhai ysgolion hefyd wedi buddsoddi i ddatblygu sgiliau iaith eu staff er mwyn gwreiddio'r ddarpariaeth ITM a hybu ei gynaliadwyedd yn y tymor hir.

Dau ddull o gyflwyno darpariaeth Almaeneg

Mewn un ysgol, dechreuwyd drwy gyflwyno gwersi Almaeneg i Flwyddyn 5 yn ystod hanner awr gyntaf y diwrnod. Nod y gwersi oedd rhoi digon o Almaeneg i'r disgyblion allu ysgrifennu at ddisgyblion mewn ysgol yn yr Almaen lle'r oedd un o athrawon yr ysgol yn mynd ar ymweliad. Defnyddiwyd *Language Magician* ar y dechrau i hybu'r dysgu. Mae gwersi Almaeneg ar gael yn yr ysgol uwchradd o Flwyddyn 9, ond cymaint oedd brwdfrydedd y disgyblion wedi iddynt symud i'r ysgol uwchradd fel y cynigiwyd clwb Almaeneg i Flwyddyn 7.

Mae ysgol arall wedi bod yn dysgu Almaeneg i Flwyddyn 4 ers mis Medi 2018. Mae'r disgyblion yn dysgu Almaeneg am awr bob wythnos ynghyd ag Almaeneg 'achlysurol' yn ystod gwersi eraill. Mae'r plant wedi elwa ar adnoddau a ddarparwyd drwy'r Goethe Institut i hybu'r dysgu trwy gyfrwng caneuon, gemau, apiau a chymeriadau cartŵn sy'n helpu'r disgyblion i ddysgu geiriau Almaeneg.

Mae ysgolion yn defnyddio strategaethau gwahanol i integreiddio ieithoedd yn y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn un ysgol bu'r plant yn dysgu caneuon am fôr-ladron yn Almaeneg a Chymraeg i hybu gwaith llythrennedd wedi'i seilio ar thema môr-ladron. Hefyd, fe ffurfiodd y gweithgareddau yma ran o gyfarfod boreol a gyflwynwyd i rieni. Anogir disgyblion i ateb y gofrestr yn Almaeneg neu Gymraeg ac maent yn dysgu amryw o ganeuon eraill yn Almaeneg i ddatblygu eu geirfa sylfaenol.

"Mae ieithoedd yn cymryd eu lle yn y cwricwlwm yn dda iawn, mae'n rhaid i chi fod yn greadigol, rydyn ni'n eu cyplysu gydag Addysg Grefyddol, Daaryddiaeth, Llythrennedd, Rhifedd a thrwy hynny'n gwneud staff yn fwy ymwybodol fod ieithoedd yn bwysig."

Cydlynnydd ITM

"Mae Almaeneg yn rhywbeth arall y gallwn ni ei wneud, ac mae dysgu rhywbeth gwahanol yn hwyl ac fe fydd yn ein helpu wrth i ni dyfu'n henach...yn ogystal â dysgu'r iaith rydyn ni hefyd yn dysgu am y diwylliant a'r pethau maen nhw'n eu dathlu, eu hanes a'u crefydd."

Disgybl

Mewn ysgol arall mae grŵp o ddisgyblion wrthi'n paratoi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth fideo cerddoriaeth bop Ffrangeg sy'n cael ei chynnal gan yr Alliance Française. Maent wedi bod yn cyfansoddi rap mewn clwb ar ôl ysgol. Mae'r pytiau darluniol canlynol yn dangos y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r astudiaethau achos yn yr Atodiad yn cynnig gwybodaeth bellach am rai o'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Darluniad byr 1

Mewn un ysgol fach wledig, mae'r pennaeth yn cyflwyno Ffrangeg i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (mae 10 o ddisgyblion CA2 yn yr ysgol). Yn gyffredinol mae hi'n cyflwyno hyd at awr o Ffrangeg bob wythnos, yn aml mewn talpiau o ryw 20 munud. Gan fod yr ysgol yn fach, mae hi'n dysgu Ffrangeg i Flynyddoedd 3,4,5 a 6 ar yr un pryd, gan eu rhannu'n achlysurol i grwpiau bach i weithio ar dasgau penodol. Mae hi'n canolbwyntio ar sgiliau gwranddo a siarad ac yn and dim ar themau allweddol fel canu, rhifau, lliwiau a sut i gyflwyno eich hunain.

Mae'r ysgol yn defnyddio plattfform *PowerLanguage*, sy'n cynnwys taflenni gwaith ac adnoddau defnyddiol, i gefnogi'r ddarpariaeth yma. Sicrhawyd defnydd o'r adnodd trwy gyllid gan y consortiwm. Darparwyd cefnogaeth bellach gan y consortiwm trwy brynu adnoddau fel DVDs gyda chaneuon, llyfrau a geiriaduron. Mae hi hefyd yn ceisio defnyddio'r Ffrangeg mewn gwersi eraill, i sicrhau fod Ffrangeg yn cael ei blethu'n rhan o bynciau eraill. Er enghraifft, pan mae'r disgyblion yn dysgu am anifeiliaid, mae hi'n cyflwyno'r enwau Ffrangeg hefyd.

Darluniad byr 2

Mewn ysgol a gymerodd ran ym mhrosiect *Cerdd Iaith*, cyflwynwyd Sbaeneg i Flynyddoedd 5 a 6 gan ddau o athrawon. Nid oedd yr un ohonynt yn siarad unrhyw Sbaeneg cyn dechrau'r prosiect ond ystyriwyd hyn yn beth cadarnhaol gan fod y disgyblion a'r athrawon yn cychwyn o'r un man, ac yn dysgu gyda'i gilydd. Derbyniodd yr athrawon DPP ychwanegol ar gyfer gweithgareddau ee dysgu caneuon a rhythmiau yn Gymraeg, Sbaeneg a Saesneg, adnoddau am Batagonia a mordaith y Mimosa. Cawsant gefnogaeth gan British Council Cymru, cydlynwyd ITM consortiwm ERW a cherddorion proffesiynol o Gerddorfa Genedlaethol Cymru. Darparwyd amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau gan brosiect *Cerdd Iaith* a arweiniodd at ddefnydd o ganeuon a cherddoriaeth, cardiau iaith a thafenni gwaith yn yr ysgol. Ategwyd y gweithgareddau gan wersi cerddoriaeth gan gerddorion proffesiynol.

Darluniad byr 3

Ym 2017-18 cyflwynwyd Eidaleg i Ddosbarth Derbyn yr ysgol, astudiwyd Almaeneg gan Flynyddoedd 2 a 3, Ffrangeg gan Flynyddoedd 4 a 5 a Sbaeneg gan Flwyddyn 6 (a oedd hefyd yn rhan o brosiect pontio gyda'r ysgol uwchradd leol). Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar ddulliau creadigol o ddysgu ieithoedd. Maent yn cymathu ieithoedd yn gadarn yn y cwricwlwm, gan greu cyswllt uniongyrchol â Dinasyddiaeth Fyd-eang gan gynnwys dathlu Diwrnod Bastille, a dathlu Diwrnod Ieithoedd Rhyngwladol trwy danlinellu cysylltiadau â chelfyddyd ac artistiaid Ewropeaidd. Yn ogystal â sgiliau iaith, maent am feithrin dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol a sbarduno eu disgyblion i feddwl am y byd ehangach. Maent yn cynnal prosiectau am y gofod a glan y môr yn y Cyfnod Sylfaen, eto gan gyplysu elfennau eraill o'r cwricwlwm a rhoi pwrpas a pherthnasedd i ieithoedd. Mae ganddynt gysylltiadau ag ysgol yn Ffrainc ac maent hefyd wrthi'n meithrin cysylltiadau gydag ysgol yn Sbaen.

3.3 Effaith darparu ITM

Canfyddiadau allweddol

Effaith darparu ITM:

- Ysgolion yn nodi effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr, athrawon a phartneriaethau
- Llythrennedd a llafaredd disgyblion yn gwella ynghyd â hyder, dyheadau a sgiliau trosglwyddadwy
- ITM yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer gwaith pontio gydag ysgolion uwchradd
- Consortia addysg rhanbarthol, British Council Cymru a sefydliadau rhyngwladol yn helpu i gael at a manteisio ar hyfforddiant ac adnoddau
- Athrawon yn awyddus i fanteisio ar hyfforddiant pellach er mwyn gallu darparu ITM. Fodd bynnag, mae yna heriau o ran amser, ariannu a chael at DPP

Mae ysgolion sydd wedi cyflwyno ITM dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cyfeirio at amrywiaeth eang o effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr, athrawon, yr ysgol drwyddi draw a'u partneriaethau lleol a rhanbarthol. Mae'r rhain yn amrywio o gynnydd yn sgiliau llythrennedd a llafaredd y disgyblion a'u hyder a'u dyheadau yn ogystal â gwell cyfleoedd i ysgolion cynradd gydweithio gydag ysgolion uwchradd ar brosiectau pontio ITM. Mae ysgolion yn nodi bod heriau hefyd, yn enwedig wrth geisio ffeindio amser i ffitio ITM i'r cwricwlwm a sicrhau DPP pellach i gynnal a chryfhau sgiliau athrawon.

3.3.1 Effaith ar ddisgyblion

Mae pob ysgol yn nodi gweld effaith amlwg ar sgiliau a dyheadau'r disgyblion yn sgil cyflwyno ITM. Cafwyd adroddiadau fod dysgu ieithoedd yn rhywbeth newydd a diddorol sy'n tanio dychymyg disgyblion ysgolion cynradd. Mae'r ysgolion yn nodi bod ieithoedd yn ennyn diddordeb mawr ymysg ddisgyblion ar draws y grwpiau blwyddyn sy'n cymryd rhan (Blynyddoedd 4,5 a 6 yn bennaf), ac fe welodd yr holl ysgolion gynnydd yn hyder a hunan-barch ymysg y disgyblion. Pwysleisiodd pob ysgol fod sgiliau llythrennedd a llafaredd y disgyblion wedi elwa'n gyffredinol, a nodwyd drachefn y gwelliannau a welwyd yn sgiliau, hyder a brwdfrydedd y disgyblion i ddysgu. Dywedodd un pennaeth ysgol fod *'...y disgyblion wedi ymateb i'r her.'*

"Maen nhw'n cydio ynddo mor gyflym, mae'n anhygoel."

Cydlynnydd ITM

'Mae'n bwnc hollol newydd ac mae hynny'n dueddol o danio brwdfrydedd y disgyblion. Mae hefyd yn golygu eu bod yn fwy parod ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3'

Pennaeth Ysgol

Mewn un ysgol mae cydlynwyr ITM ac athrawon wedi sylwi bod y disgyblion hynny sydd eisoes yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn rhagori wrth ddysgu ieithoedd eraill yn sgil *'defnyddio eu sgiliau dad-godio'*. Nododd ysgol arall bod disgyblion mwy abl a thalentog (MAT) *'...yn edrych ymlaen ato'n awchus gan ei fod yn rhywbeth nad ydynt yn gallu ei wneud eto, ac felly maen nhw'n cael cyfle i herio eu hunain.'* Mewn ysgol arall nodwyd bod disgyblion yn mwynhau'r adnoddau a ddarparwyd gan brosiect *Cerdd laith*, rhaglen yn cyplysu ITM â cherddoriaeth, dawns a chanu, tra roedd cydlynnydd ITM arall yn canmol yr app dysgu, *Language Nut*, gan nodi, *'Mae'r disgyblion yn mwynhau elfen gystadleuol yr adnodd yma, lle maen nhw'n gallu gweld sgoriau ysgolion eraill. Roedd y plant yn sylweddoli fod y gemau yn eu profi, ond mewn ffordd hwyliog.'*

“Roeddwn i'n teimlo'n gyffrous pan glywais ein bod ni'n mynd i ddysgu Sbaeneg ond ychydig yn nerfus hefyd. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Ond fe ymlaciais i'n ddigon buan, 'dych chi'n cael gafael arno, ac mae'n rhoi hyder i chi.”

“Os ydych chi'n dysgu geiriau mewn caneuon rydych chi'n dechrau eu hadnabod pan 'dych chi'n eu gweld wedi eu 'sgwennu.”

“Rydyn ni'n hoffi ieithoedd achos 'dych chi'n gallu mynd i wledydd eraill a chwrdd â phobl, teithio'r byd, gwneud swyddi da fel ffotograffiaeth a phensaernïaeth, 'dych chi'n gallu mynd i dai bwyta 'posh' lle maen nhw'n siarad Ffrangeg neu benderfynu eich bod am symud i wlad arall a bod yn gogydd.”

Grwpiau ffocws disgyblion

Nododd rhai ysgolion hefyd fod disgyblion sydd ddim yn arfer gwneud cystal mewn pynciau eraill i'w gweld yn llwyddo gyda'r iaith newydd. Mewn un ysgol roedd disgyblion sy'n arfer cael trafferth wrth ganolbwyntio mewn gwersi yn frwdfrydig iawn am yr 'wythnos ryngwladol' a'r gweithgareddau dysgu ieithoedd cysylltiedig. Nodwyd hefyd fod ITM yn cael effaith ar blant tawelach mewn sawl ysgol. Tanlinellodd cydlynwyr ITM bod dulliau dysgu ITM yn wahanol i ffyrdd mwy traddodiadol o ddysgu ac y gall hynny gyfrannu i godi hyder y disgyblion hyn a'u hysgogi i gyfrannu. Nododd cydlynwyr ITM ym mhob ysgol bod gallu disgyblion i gofio geirfa ac ymadroddion a'u brwdfrydedd i ddysgu mwy wedi creu argraff arnynt.

“Roedden nhw mor hyderus... ac yn huawdl iawn.”

Pennaeth Ysgol

“Rydyn ni'n defnyddio Cymraeg a Ffrangeg wrth ebostio ysgolion eraill. Rydyn ni'n dweud ein henwau, oedrannau, sôn am ein hanifeiliaid anwes, ein diddordebau. Rydyn ni wrthi'n sgwennu cân yn Ffrangeg o'r enw 'Bienvenu au Pays de Galles', mae'n sôn am y pethau hyfryd a hardd sydd yng Nghymru ac mae 'na rap ynddo hefyd.”

Grŵp ffocws disgyblion

“Mae adran yng nghefn llyfrau gwaith cartref y disgyblion ar gyfer geirfa Ffrangeg. Rydyn ni'n eu hannog i chwilota ac ychwanegu geiriau newydd eu hunain yn eu hamser a'u ffordd eu hunain. Maen nhw wedi mwynhau'r annibyniaeth a'r berchnogaeth yna'n fawr iawn, gan ddod i'r ysgol a dangos y geiriau newydd y maent wedi eu darganfod a'u hychwanegu i'w rhestrau dros y penwythnos i'w cyd-ddisgyblion.”

Cydlynnydd ITM

Nododd un ysgol fod defnyddio Almaeneg, Cymraeg a Saesneg yn ystod cyflwyniadau yn y cyfarfod boreol yn dangos cynnydd yn sgiliau iaith y disgyblion yn ogystal â'u hyder i gyfnewid rhwng ieithoedd. Nododd ysgol arall bod ei disgyblion yn datblygu safonau da wrth ysgrifennu Cymraeg a Ffrangeg – fel y dangoswyd i'w Cynghorwr Herio, roeddent yn nodi elfennau a phatrymau cyffredin rhwng gwahanol ieithoedd. Mae'r darluniad isod hefyd yn dangos ymateb cadarnhaol disgyblion i ddysgu iaith newydd. Mae'r astudiaethau achos yn yr Atodiad i'r adroddiad yma'n cynnwys sylwadau gan ddisgyblion ar sut y mae dysgu ITM wedi gwneud gwahaniaeth iddynt.

Darluniad byr 4

Mewn un ysgol mae'r ddarpariaeth iaith wedi dod yn rhan o Dargedau Gwelliannau'r Ysgol. Dywedodd pennaeth yr ysgol, "Mae hyn yn dangos i'r rhieni, llywodraethwyr a'r staff ein bod yn cymryd ITM o ddifrif". Gan nad oes dulliau asesu ar gyfer Ffrangeg ac Almaeneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yng Nghymru ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r cynnydd bob hanner tymor ar gyfer y llywodraethwyr a'r ymgynghorydd her. Felly o ran effaith ITM ar y disgyblion, mae'r cynrychiolwyr Therapi Iaith a Lleferydd yn canolbwyntio ar eu hagweddau at ddysgu, eu hyder a'u dyheadau. Nododd pennaeth yr ysgol, "Mae'r rhieni'n gefnogol iawn; maent yn gweld gwerth ein dulliau amlieithog a diwylliannol. Maen nhw'n awyddus i'w plant gael y profiadau hyn."

"Mae'r camau cyntaf wedi bod yn llwyddiannus iawn; mewn arolwg llais y disgybl dywedodd 86% o'r disgyblion eu bod yn dwlu ar ieithoedd. Roeddent eisiau mwy ac roedd yn ddefnyddiol iawn i'r staff weld y fath ymateb cadarnhaol ac maent wedi bwrw ymlaen i ateb y gofyn ers hynny". Cydlynnydd ITM

3.3.2 Partneriaethau

Nododd ysgolion cynradd sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion uwchradd lleol fod gwaith yn seiliedig ar ITM wedi bod yn gaffaeliad i weithgareddau pontio, gan greu cyfleoedd i ddisgyblion gwrdd ag athrawon uwchradd a chael rhagflas o wersi iaith. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn cydweithio i ddatblygu adnoddau ar y cyd a rhannu arfer da. Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cyfuno i gyflwyno ceisiadau ariannu ar gyfer ymweliadau cyfnewid, a phartneriaethau gydag ysgolion trwy raglenni fel Erasmus+ a rhaglenni a ariennir gan sefydliadau rhyngwladol fel y Goethe Institut, yr Alliance Française a Chonsyliaeth yr Eidal.

Mae gan un ysgol ddau gyswllt Erasmus+; y naill yn Mallorca a'r llall yn Budapest, yn ogystal â rhaglen gyfnewid ddwy flynedd gydag ysgol yn Hwngari. Mae deg o'i disgyblion yn ymweld â Hwngari ym mis Mehefin 2019 ac mae disgyblion y ddwy ysgol yn ysgrifennu at ei gilydd a rhannu caneuon. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o UK German Connection (a ariennir gan lywodraeth yr Almaen) ac fe gyfranodd athro o'r Almaen i ddosbarthiadau yn ystod cyfnod ar leoliad yn yr ysgol.

Roedd yr ysgolion yn croesawu'r gefnogaeth a dderbynnir gan bob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol i gyflwyno a chynnal ITM. Cafwyd adroddiadau fod y consortia wedi darparu ystod o gefnogaeth gan gynnwys ariannu, hyfforddiant, adnoddau, arbenigedd a chysylltiadau. Bu sesiynau hyfforddi ITM yn boblogaidd iawn: Rhannwyd gwybodaeth am y math o gefnogaeth ac adnoddau sydd ar gael a gwahanol bedagogau a dulliau dysgu yn y sesiynau. Mae rhai consortia hefyd wedi prynu adnoddau i ysgolion eu defnyddio er mwyn darparu ITM, ac wedi rhoi symiau bach o arian pellach i'w helpu i fynychu cyrsiau hyfforddiant, cyflwyno diwrnodau iaith a chefnogi rhwydweithio.

"Mae ein cydlynnydd ITM rhanbarthol yn athrawes Sbaeneg a Ffrangeg uwchradd, ac mae hi'n ein cyfeirio ni'n dda ac mae wedi dechrau agor drysau i ni hefyd drwy raglen Dyfodol Byd-eang."

Pennaeth Ysgol

Amlinellodd cynrychiolwyr o'r pedwar consortiwm eu dulliau gweithredu strwythuredig i gefnogi ITM; roedd rhai wedi cynnal archwiliad o ddarpariaeth ITM mewn ysgolion cynradd er mwyn gallu targedu adnoddau'n fwy effeithiol ac adeiladu ar gryfderau ac uchelgeisiau'r ysgolion. Ar hyn o bryd mae rhai consortia'n monitro cynnydd ac effaith y mentrau hyn, gan ddatblygu sylfaen dystiolaeth bellach am effaith gadarnhaol cyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd ar gyfer y dyfodol.

Nododd ysgolion fod cyfraniad British Council Cymru hefyd wedi bod yn fuddiol iawn o ran darparu cefnogaeth ar gyfer rhwydweithio a datblygu adnoddau, law yn llaw ag arbenigedd ei staff sydd wedi annog ysgolion i feithrin rhwydweithiau newydd yn ogystal â thynnu eu sylw at ddarpar gyfleoedd ariannu eraill a phrosiectau fel **Cerdd Iaith**. Dywedodd un cydlynnydd ITM, ar ôl cael cyfle i fynychu trafodaeth '**State of the Language**'; *'...mae wedi agor drysau i gyfleoedd newydd gyda British Council Cymru ac ysgolion eraill yn yr ardal a gydag ysgolion uwchradd ar gyfer gwaith pontio'*.

Mae cyflwyno ITM wedi arwain at gynydd mewn cydweithredu rhwng ysgolion cynradd, yn gweithio mewn clystyrau mewn rhai rhanbarthau, a chyfnewid arfer da am ddulliau o integreiddio ITM yn y cwricwlwm newydd. Mae rhai o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn ysgolion hwb yn eu consortiwm rhanbarthol. Maent yn derbyn cyllid ychwanegol i arwain mentrau o fewn y clwstwr neu bartneriaethau sy'n gweithio dros ieithoedd gydag ysgolion cynradd lleol eraill. Mae un ysgol wrthi ar hyn o bryd yn cyd-greu adnoddau newydd gyda chefnogaeth y consortiwm fel rhan o'r dull gweithredu yma. Dywedodd cydlynnydd ITM yr ysgol fod mentrau o'r fath *'yn arbed amser ac yn dileu rhwystrau'*. Amlinellodd cynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol fanylion mentrau pellach a fydd yn hybu cydweithio gan gynnwys datblygu llysgenhadon ITM mewn ysgolion.

Fodd bynnag, nododd ysgolion hwb yr astudiaeth fod cymell rhai ysgolion i gymryd rhan yn dal i fod yn her yn sgil cyfyngiadau ariannu, trefniadau i gymryd lle athrawon, diffyg amser a phryderon bod darpariaeth ITM yn digwydd ar draul agweddau eraill o'r cwricwlwm. Nododd nifer o'r ysgolion, sydd wedi cyflwyno ITM yn ddiweddar, eu bod wedi wynebu heriau tebyg wrth geisio sicrhau DPP sydd 'at bwrpas', mentora a datblygu adnoddau i'w rhannu. Ategwyd hyn gan gynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol a nodwyd fod magu hyder athrawon yn her allweddol yn ogystal â'r amser y mae'n ei gymryd i uwchsgilio staff.

Cafwyd adroddiadau hefyd am ragor o heriau o ran cael at adnoddau a chefnogaeth, a rhai penaethiaid sydd ddim yn rhoi gwerth ar botensial ieithoedd neu'n methu gweld y potensial hwnnw. Rhannwyd pryderon hefyd am ddirywiad parhaus y niferoedd sy'n dewis astudio ITM mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Ystyrid fod cyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd yn elfen bwysig wrth fynd i'r afael â hyn.

"Mae canfyddiadau am ieithoedd mor bwysig, mae angen iddynt fod yn rhan o ddyheadau'r disgyblion. Rhaid i chi wneud hyn yn hawdd i'r ysgolion, rhaid i Lywodraeth Cymru roi gwerth arnynt, eu hyrwyddo a'u hybu."

Pennaeth Ysgol

3.3.3 Effaith ar staff

Nododd athrawon sy'n cyflwyno ITM fod y profiad wedi cynyddu eu hyder fel athrawon. I'r rhai oedd â phrofiad blaenorol o astudio neu ddysgu ITM mae adnoddau newydd wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u syniadau am gyflwyno ieithoedd i ddisgyblion cynradd. Nododd athrawon heb unrhyw brofiad blaenorol bod eu hyder wedi cynyddu yn ogystal â'u gwerthfawrogiad o gefnogaeth y consortiwm a dyheadau i barhau i ddysgu ITM gyda'u disgyblion. Nododd nifer o athrawon fod ganddynt hyder bellach i gysylltu â chydweithwyr eraill i hybu ITM ar draws grwpiau blwyddyn eraill a dangos yr effaith gadarnhaol y mae ITM yn ei gael ar ddisgyblion.

"Nid yw fy Ffrangeg i'n anhygoel o dda. Astudiais Ffrangeg hyd TGAU. Rwy'n credu ei bod hi'n fanteisiol fy mod innau'n dysgu a'u bod nhw'n ymwybodol o hynny. Os ydw i'n gwneud camgymeriad maent yn hapus i fy nghywiro, ac rwyf innau'n hapus iddynt wneud hynny. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gydio yn yr awennau iddynt am ychydig ac mae'n gwneud iddynt deimlo'n falch. Maen nhw'n teimlo mai nhw ydy'r 'boss'."

Cydlynnydd ITM

Bu cyfraniad staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda'n ddylanwad allweddol o ran sicrhau effaith gadarnhaol cyflwyno ITM mewn llawer o ysgolion. Nododd un ysgol ei bod wedi rhoi ffocws wrth recriwtio ar athrawon sydd â sgiliau iaith, a'i bod wedi annog athrawon sydd eisoes yn yr ysgol i ddatblygu neu gynnal unrhyw sgiliau iaith sydd ganddynt. Mae chwech o athrawon yr ysgol wedi cofrestru ar gyfer modiwlau dysgu iaith gyda'r Brifysgol Agored, sydd hefyd wedi helpu staff gyda'r Gymraeg.

Cadarnhaodd staff dysgu mai'r prif heriau iddynt yw ffeindio amser a lle yn y cwricwlwm a datblygu ei sgiliau iaith eu hunain. O ran cael at ddarpariaeth DPP ar gyfer ITM, nodwyd mewn rhai rhanbarthau, er gwaethaf cefnogaeth y consortia, mai dim ond ar gyfer ysgolion uwchradd yr oedd y ddarpariaeth yma ar gael. Dywedodd athrawon y byddent yn falch iawn o gael adnoddau pellach i lywio eu hymdrechion dysgu eu hunain ac y byddent hefyd yn croesawu cyfle i arsylwi ar athrawon ysgolion uwchradd yn dysgu ieithoedd yn ogystal â'r cyfle (a threfniant i ofalu am eu dosbarthiadau) i gymryd rhan mewn mwy o gysiau hyfforddi undydd dwys.

3.4 Cynaliadwyedd, arfer da a datblygiad ITM yn y dyfodol

Canfyddiadau allweddol

Cynaliadwyedd, arfer da a datblygiad ITM yn y dyfodol:

- Mae pob ysgol a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn parhau i ddarparu ITM ac mae rhai ohonynt yn bwriadu cynnal y ddarpariaeth ar ôl i gyllid y prosiect ddirwyn i ben
- Mae rhai ysgolion yn bwriadu ymestyn y dewis o ieithoedd a'r grwpiau blwyddyn y cynigir ITM iddynt
- Mae cynyddu gallu a hyder staff yn allweddol i ehangu darpariaeth ITM
- Mae'r ysgolion eisoes yn defnyddio adnoddau, archwilio partneriaethau a rhannu arfer da gydag ysgolion eraill
- Mae'r cwricwlwm newydd a mentrau fel *Dyfodol Byd-eang* yn creu cyfleoedd, ond mae angen dilyn hyn gydag ariannu cynaliadwy pellach i hybu ITM

Mae gan holl ysgolion cynradd yr astudiaeth gynlluniau i gynnal, ac mewn rhai achosion, ymestyn eu darpariaeth ITM. Maent hefyd yn ystyried posibiladau gyflwyno ieithoedd yn gynharach ac yn paratoi cynlluniau i ehangu'r dewis o ieithoedd a'r grwpiau blwyddyn y cynigir ITM iddynt. Mewn un ysgol, *'mae dull gweithredu dwyieithog wedi troi'n ddull gweithredu amlieithog'*, ac mae'n fwriad ganddynt i ddysgu Eidaleg i'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 ac amrywiaeth o ieithoedd i'r grwpiau blwyddyn eraill. Mae ysgol arall yn bwriadu cynnig iaith wahanol i bob grŵp blwyddyn. Y nod yw meithrin 'cariad at iaith' ymysg y disgyblion a chreu cysylltiadau rhwng yr ieithoedd a gwahanol brosiectau yn yr ysgol. Mae'r enghreifftiau yma'n dangos uchelgais rhai o'r ysgolion i ddatblygu ITM dros y blynyddoedd nesaf.

Mae ysgolion eraill yn anelu at gynnyddu eu darpariaeth yn fwy graddol, gan adeiladu ar lwyddiant prosiectau blaenorol a pharhau i ddefnyddio'r adnoddau a ddarparwyd ar gefn hynny. Dywedodd un pennaeth ysgol fod y dull gweithredu yma'n helpu i wreiddio ITM fel rhan o ddarpariaeth ehangach yr ysgol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a gwerth dysgu ieithoedd. Dywedodd pennaeth arall fod ITM bellach yn *'rhan o'n hethos'* ac yn rhan o gynllun datblygu pum mlynedd yr ysgol a'i bod hefyd yn bwriadu cynnig *'darpariaeth gyson'* o gyfleoedd dysgu iaith i bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol.

Nododd nifer o ysgolion hefyd eu bod yn casglu mewnbwn gan rieni a llywodraethwyr wrth ystyried rhychwant eu darpariaeth iaith gan bwysleisio fod y dull ymgynghorol yma'n helpu i godi proffil dysgu ieithoedd. Nododd ysgolion eu bod yn gweld ieithoedd Rhyngwladol fel rhan resymegol o'r cwricwlwm newydd ac y byddai eu hymroddiad i hybu rhyngwladoliaeth yn help i sicrhau cynnal y ddarpariaeth.

"Rwy'n mynd i wneud yn siwr ei fod yn ffitio oherwydd y gwerth y byddan nhw'n ei gael ohono... nid meddwl yn y bocs Saesneg yr ydym, ond yn hytrach, meddwl yn y bocs llythrennedd a chyfathrebu, mae'n cyd-daro â chymaint o sgiliau."

Pennaeth Ysgol

Ystyriwyd fod cynyddu'r gronfa o staff sy'n gallu cyflwyno ITM yn flaenoriaeth gan ysgolion sy'n pwysu a mesur sut i gynnal y ddarpariaeth. Mewn rhai achosion, pennaeth yr ysgol neu aelod uwch o'r staff yw cydlynnydd ITM yr ysgol. O ganlyniad ceir cydnabyddiaeth bod annog a chefnogi athrawon eraill i ddatblygu neu gryfhau sgiliau iaith sydd ganddynt eisoes yn angenrheidiol os yw'r ysgol am ymestyn cyfleoedd i grwpiau blwyddyn eraill. Ym mhrofiad un cydlynnydd roedd hyn yn hollol angenrheidiol wrth ddarbwylo aelodau eraill o'r staff, a oedd efallai wedi cael profiadau gwael eu hunain o ddysgu ieithoedd, i ddysgu ITM yn yr ysgol. Cydnabu nifer y gallai darparu ITM fod yn her heb arbenigwr ar y staff dysgu neu heb adnoddau da.

Nododd un cydlynnydd ITM bod angen i athrawon wybod *'nad oes angen iddynt fod yn rhugl mewn iaith er mwyn ei dysgu... cael cronfa o gynlluniau ac adnoddau dysgu yw'r allwedd, a hyd yn oed wedyn mae angen amser ar staff dysgu a staff cynorthwyol i uwchsgilio'*. Ystyrir bod cefnogaeth, o bosib drwy athrawon ITM ysgolion uwchradd a hyfforddiant wedi'i ariannu gan y consortiwm, yn hanfodol. Pwysleisiodd un cydlynnydd y bydd gwreiddio ITM yn y cwricwlwm yn cymryd amser, gan gynnwys yr amser sydd ei angen ar athrawon i gynllunio a gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cyflwyno darpariaeth ITM o ansawdd.

"Digon hawdd yw cyfeirio at arbenigwr yn yr ysgol, ond mae angen mwy o athrawon sy'n gallu dysgu ieithoedd, ac mae'n bwysig fod athrawon yn deall nad oes rhaid iddynt fod ar ryw lefel benodol i allu dysgu iaith".

Pennaeth Ysgol

"Llythrennedd a llafaredd yw'r allwedd; bydd y cwricwlwm newydd yn cynnig mwy o gyfle i fod yn greadigol gyda hyn – bydd yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion ffynnu a mynegi eu hunain. Gall ieithoedd gyfrannu'n aruthrol i hyn, a gall athrawon hwyluso hynny."

Pennaeth Ysgol

Mae ysgolion yn adrodd bod cyfoeth o adnoddau ar gael i hybu darpariaeth ITM. Ond, mae angen cyllid digonol i wireddu ymroddiad a syniadau'r ysgolion wrth barhau i hybu ITM yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Croesawyd **Dyfodol Byd-eang** gan y mwyafrif o ysgolion ond doedd rhai ddim yn gwybod am holl rychwant a phosibiliadau'r rhaglen o ran dysgu ITM. Roedd eraill yn teimlo nad oedd digon o gyllid gan y rhaglen ar hyn o bryd i gefnogi eu holl uchelgais. Mynegwyd pryderon hefyd am yr hyn a ddisgrifiwyd fel yr 'amwysedd' o ran amcanion y rhaglen. Hefyd, fel yr amlinellwyd yn gynharach, mynegwyd pryderon am gyfyngiadau tybiedig y rhaglen o ran mynd i'r afael â'r dirywiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ITM ar gyfer TGAU a thu hwnt.

"Mae angen mwy o ymroddiad i ITM, mwy o gefnogaeth yn enwedig gydag ariannu gan fod diffygion yng nghyllidebau llawer o ysgolion. Fel arall, bydd ysgolion yn edrych tuag i mewn; fyddan nhw ddim yn cydweithio, a bydd hyn yn tynnu'n groes i bopeth mae Llywodraeth Cymru a'r consortia yn ceisio'i gyflawni. Mae'n hawdd gollwng ieithoedd os nad oes adnoddau, mae ariannu'n rhoi cyfle i ni greu a rhannu adnoddau, ac i ddenu aelodau eraill o'r staff i gymryd rhan."

Cydlynnydd ITM

Er gwaetha'r gefnogaeth sydd ar gael drwy raglenni sy'n bodoli eisoes ac adnoddau i gefnogi athrawon iaith yn y sector cynradd sydd ddim yn arbenigwyr, mynegwyd pryderon am gynaliadwyedd a'r gallu i ymestyn y ddarpariaeth iaith mewn ysgolion cynradd. Roedd y pryderon yma'n syrthio i dri chategori.

Yn gyntaf, er bod cefnogaeth ar gael, mae rhanddeiliaid yn awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael. Profwyd hyn gan nifer o'r ysgolion a nododd nad oeddynt yn ymwybodol o argaeledd adnoddau na hyfforddiant cyn iddynt gymryd rhan yn rhaglen **Dyfodol Byd-eang** a mentrau penodol eraill.

Yn ail, o ran dysgu ieithoedd, mae yna ddiffyg dealltwriaeth ar draws y system ysgolion o anghenion datblygu proffesiynol gweithlu'r sector cynradd. Mae'r wybodaeth am beth sydd ei angen ar athrawon fel y gallant ddysgu ail iaith yn effeithiol yn anigonol – o ran sgiliau iaith ar y naill law ac adnoddau a dulliau dysgu ar y llall.

Yn drydydd, ac yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweled am bwysleisio pwysigrwydd yr angen i feithrin dealltwriaeth o bedagogau dysgu ail iaith a datblygu arbenigedd ynddynt ymysg athrawon cynradd. Roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng caffaeliad iaith gyntaf ac ail iaith, a'r angen i sicrhau fod athrawon yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau a'r dulliau dysgu angenrheidiol i ddysgu ail a thrydedd iaith. Awgrymodd rhanddeiliaid bod angen dulliau gweithredu mwy strwythuredig a systematig os yw'r ddarpariaeth dysgu ieithoedd cynradd am ehangu a chynyddu'n sylweddol fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd.

4. CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

Ffactorau sy'n ysgogi darpariaeth ITM

Mae nifer o ffactorau'n ysgogi datblygiad darpariaeth ITM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae alinio *Dyfodol Byd-eang* gyda Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn gwreiddio'r uchelgais i sicrhau fod gan bobl ifanc yng Nghymru'r gallu i ddeall diwylliannau eraill a chydabod pwysigrwydd ITM. Er bod rhai ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth yma'n ymwybodol iawn o botensial *Dyfodol Byd-eang* i gefnogi darpariaeth ITM, nid oedd pob ysgol yn ymwybodol o'r rhaglen tra'r oedd eraill heb eu hargyhoeddi o'i heffeithiolrwydd. Ymddengys felly bod angen ffocws pellach ar hybu datblygiad dulliau creadigol ac arloesol o addysgu a dysgu ITM ledled Cymru.

Mae Penaethiaid Ysgol wedi ysgogi'r broses o gyflwyno darpariaeth ITM yn yr ysgolion a gyfranodd i'r adroddiad yma, ond mae aelodau eraill o staff hefyd yn arwain ar hyn mewn rhai ysgolion. Mae cydlynwyr ITM yn monitro cynnydd ac yn canfod cyfleoedd i greu partneriaethau a chael at gyllid gydag anogaeth penaethiaid sy'n cydnabod eu sgiliau a'u dyheadau ym maes dysgu ieithoedd. Mae penaethiaid a chydlynwyr ITM wedi pwysleisio eu huchelgais i ddatblygu ysgolion creadigol ac amlieithog sy'n rhoi cyfle i'w disgyblion ffynnu fel dysgwyr gydol-oes a dinasyddion byd-eang – ysgolion lle mae addysgu a dysgu ITM yn cymathu'n gadarn gydag ethos a dyheadau rhyngwladol.

Mae ceisiadau ariannu llwyddiannus i amryw o sefydliadau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol wedi darparu cefnogaeth ac adnoddau i rai ysgolion; mae hyn yn cynnwys gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau i ddatblygu cyfleoedd ITM a sicrhau fod athrawon yn cael at hyfforddiant priodol. Ystyrir bod y consortia addysg rhanbarthol a British Council Cymru wedi bod yn bartneriaid allweddol yn hyn o beth ac y dylid cynnal a meithrin y partneriaethau a ddatblygwyd gydag ysgolion yn y dyfodol er mwyn adeiladu ar y llwyddiant yma.

Ieithoedd Rhyngwladol a'r cwricwlwm newydd

Mae ysgolion wedi manteisio ar hyblygrwydd y cwricwlwm newydd i feithrin dulliau creadigol o addysgu a dysgu ITM, gan gyplysu dysgu ieithoedd gydag elfennau fel gwyddoniaeth, cerddoriaeth a chelf. Mae athrawon yr holl ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth effaith yma'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau wrth gyflwyno ITM ac ennyn diddordeb eu disgyblion. Mewn llawer achos, mae integreiddio ITM yn y cwricwlwm, a sicrhau dysgu 'achlysurol' wedi bod yn ddylanwadau allweddol ar gynnydd a mwynhad y dysgwyr. Mae manteisio ar gyfleoedd i rannu arfer da gydag ysgolion lleol eraill hefyd yn meithrin partneriaethau cynhyrchiol ac mae defnyddio athrawon ITM o'r sector uwchradd yn y sector cynradd yn cyflwyno cyfleoedd i rannu sgiliau a gwybodaeth.

Mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd wedi sôn am fudd cyplysu ITM gydag addysgu a dysgu'r Gymraeg. Mae athrawon wedi disgrifio defnyddio dulliau pedagogiaid i helpu disgyblion wneud cysylltiadau rhwng y Gymraeg ag ITM, gan gynnwys edrych ar strwythurau brawddegau a geiriau cytras er mwyn gwella eu sgiliau a chynyddu eu hyder fel dysgwyr iaith. Nododd cydlynwyr ITM fod lle i ddatblygu'r cysylltiadau yma gyda'r Gymraeg ymhellach, a meithrin agweddau cadarnhaol a dyfnhau ymwybyddiaeth y disgyblion o aml-ddiwyllianaeth ac amrywiaeth, sy'n cyd-fynd ag amcanion strategaeth *Cymraeg 2050*.

Mae gan athrawon sy'n cyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd rychwant o arbenigeddau. Mae gan rai hyfedredd sylweddol yn yr iaith tra bod eraill yn dechrau o'r dechrau gan ddysgu ochr yn ochr â'r disgyblion. O ganlyniad, mae cael at hyfforddiant perthnasol ac adnoddau effeithiol wedi bod yn allweddol i lwyddiant athrawon ar bob lefel ac fe ddylid parhau i annog ac ariannu'r agwedd hyblyg yma tuag at DPP ar gyfer ITM yn y dyfodol. Byddai archwiliad o ITM yn y sector cynradd ledled Cymru yn caniatáu nodi cryfderau'r sefyllfa bresennol yn ogystal â'r bylchau mewn sgiliau, gan sicrhau targedu cefnogaeth yn fwy penodol ar gyfer addysgu a dysgu ITM.

Effaith ar ddisgyblion

Mae ysgolion cynradd sydd wedi cyflwyno ITM yn nodi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion, athrawon, yr ysgol drwyddi draw a phartneriaethau rhanbarthol. Nodir bod sgiliau llythrennedd a llafaredd wedi gwella ac roedd pob ysgol yn adrodd am weld cynnydd yn sgiliau cyfathrebu'r disgyblion ac yn eu hawydd i ddysgu. Mae'r ysgolion wedi defnyddio amrywiaeth o dulliau i gyflwyno ITM gan gynnwys cerddoriaeth, rhigymau a gemau. Mae'r athrawon yn nodi fod hyn wedi helpu i danio diddordeb y dysgwyr a bod hynny wedi arwain at fagu hyder a hunan-werth ymysg y disgyblion sy'n cymryd rhan. Mae adborth hanesiol gan staff yn tanlinellu effaith gadarnhaol dysgu ITM ar ddysgwyr mwy galluog a llai abl fel ei gilydd.

Mae rhai ysgolion wedi dechrau monitro cynnydd disgyblion a'r effaith y mae gweithgareddau dysgu ITM wedi eu cael ar gyrhaeddiad disgyblion. Gan mai dim ond yn gymharol ddiweddar y cyflwynwyd ITM mewn ysgolion eraill, mae'n rhy gynnar eto iddynt allu cyflawni unrhyw fonitro arwyddocaol. Mae hwn yn faes y bydd gofyn canolbwyntio pellach arno yn y dyfodol; bydd angen i ysgolion hwb ddatblygu a rhannu dulliau asesu cynnydd a'r effaith y mae'n ei gael ar ddysgwyr.

Partneriaethau

Mae partneriaethau gydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol eraill wedi cynnig cefnogaeth ddefnyddiol i athrawon sy'n cyflwyno ITM ac wedi bod yn fodd i atgyfnerthu gweithgareddau pontio ar gyfer y disgyblion. Wrth fynd i'r afael â dysgu ieithoedd mae'r ysgolion hefyd wedi elwa'n sgil rhannu adnoddau ac arbenigedd trwy'r consortia addysg rhanbarthol, British Council Cymru, sefydliadau rhyngwladol ac ysgolion mewn gwledydd eraill.

Mae potensial yma i ddatblygu a chryfhau cyfleoedd i greu partneriaethau o'r fath ymhellach er mwyn gwella sgiliau staff, cefnogi cyfnewid gwybodaeth am arfer da a chyflwyno ITM yn ehangach ar draws y sector cynradd. Gallai cryfhau rôl ysgolion 'hwb' a chynyddu eu cyllid i hybu ITM a datblygu mwy o bartneriaethau gydag ysgolion uwchradd wrth fanteisio ar arbenigedd athrawon yr ysgolion hynny helpu i ysgogi ehangiad ITM yn y sector cynradd.

Cynaliadwyedd

Mae'n fwriad gan bob un o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth i gynyddu eu darpariaeth ITM, cyflwyno'r cyfle i ddisgyblion blynyddoedd eraill neu gynnal y cynnydd a wnaed. Mae'r ysgolion yn bwriadu parhau i fanteisio ar adnoddau fel **Cerdd Iaith** a phlatfformau fel **Language Nut** a **PowerLanguage**. Fodd bynnag, nododd yr ysgolion bod diffyg amser yn y cwricwlwm wedi creu talcen caled wrth geisio cyflwyno ITM yn gyson ac effeithiol. Nododd rhai athrawon a rhanddeiliaid fod diffyg cyllid parhaus ar gyfer hyfforddiant ITM, a allai gynyddu hyder a gallu athrawon yn ogystal â helpu i sicrhau adnoddau, yn faen tramgwydd i lwyddiant darparu ITM.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin dealltwriaeth o bedagogau dysgu ail iaith effeithiol ymysg athrawon cynradd. Awgrymwyd bod angen meithrin dulliau gweithredu mwy strwythuredig a systemataidd i ddatblygiad proffesiynol os yw dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd yn mynd i ehangu a chynyddu'n arwyddocaol fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd.

Datblygu ITM yn y dyfodol

Ymddengys nad yw'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol i ddiwallu uchelgais ysgolion cynradd o ran darparu ITM. Mae'n debygol y bydd angen cyllid a chefnogaeth ychwanegol i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant i staff a'u galluogi i fanteisio ar hyfforddiant ac ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi a rhannu arfer da. Mae llwyddiant ac effaith y ddarpariaeth ITM gychwynnol a archwiliwyd gan yr astudiaeth effaith yma wedi sbarduno gweledigaeth am well dulliau gweithredu amlieithog mewn rhai ysgolion. Dylid manteisio ar raglen **Dyfodol Byd-eang** a'r strategaethau a fydd yn ei dilyn i gefnogi hyn, yn ogystal â strategaeth ryngwladol arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Argymhellion

1. Mae cyfraniad penaethiaid ysgol yn allweddol i lwyddiant darpariaeth ITM mewn ysgolion cynradd a dylid targedu ymgysylltu effeithiol gyda nhw wrth hyrwyddo rhaglen *Dyfodol Byd-eang* a'r strategaethau a fydd yn ei dilyn.
2. Dylai'r ymgyrch i hybu ITM mewn ysgolion cynradd annog datblygu dull gweithredu amlieithog lle mae sgiliau'r staff, cyllid a dyheadau disgyblion a rhieni yn caniatáu hynny. Gallai'r agwedd hyblyg yma fod yn rhan o unrhyw strategaeth sy'n dilyn *Dyfodol Byd-eang* a chyplysu gyda chynllunio ar gyfer darpariaeth uwchradd ITM yn y dyfodol.
3. Dylai'r consortia rhanbarthol barhau i hybu arbenigedd athrawon ITM ysgolion uwchradd, meithrin llysgenhadon disgyblion ac ariannu ysgolion hwb i gefnogi'r ymdrech i ehangu ITM yn y sector cynradd.
4. Dylid parhau i gefnogi agwedd hyblyg tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer athrawon cynradd, gan gydnabod bod gwahanol lefelau i'w harbenigedd a'u hyder ym maes ITM. Dylai'r DPP yma ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mewn pedagogau dysgu ail iaith yn ogystal â sgiliau iaith athrawon cynradd.
5. Dylid darparu cefnogaeth benodol i ysgolion cynradd wella ymwybyddiaeth o sut i hybu dysgu ITM 'achlysurol' ar draws y cwricwlwm. Gellir cyplysu hyn gyda dulliau o hybu sgiliau trosglwyddadwy i ddisgyblion.
6. Mae lle i ddatblygu'r cysylltiadau a'r deunydd dysgu rhwng ITM a'r Gymraeg ymhellach er mwyn hybu datblygiad sgiliau trosglwyddadwy'r disgyblion a sicrhau cynnydd tuag amlieithrwydd.
7. Dylai rhannu arfer da wrth ddatblygu systemau monitro i asesu cynnydd disgyblion ac effaith ITM fod yn ffocws i ysgolion hwb yn y dyfodol.
8. Byddai archwiliad cenedlaethol o ddarpariaeth gynradd ITM, a allai adeiladu ar waith a gyflawnwyd eisoes mewn rhai rhanbarthau, yn galluogi gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r drefn bresennol a sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei gyfeirio'n fwy penodol yn y dyfodol. Gallai'r archwiliad hefyd ystyried y galw am adnodd ITM arlein pwrpasol a fyddai'n gyfrwng i ysgolion rannu arfer da wrth ddarparu ITM.
9. Mae gan British Council Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth barhau i gefnogi ysgolion gyda chyrchu hyfforddiant a chyllid ac fe ddylai ganolbwyntio ar hwyluso rhwydweithio rheolaidd a chyfleoedd ariannu ar gyfer ITM.

ATODIAD: ASTUDIAETHAU ACHOS

Mae'r pum astudiaeth achos isod yn cynnig trosolwg manylach o ddarpariaeth ac effaith leithoedd Tramor Modern.

Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr & Llanhari, Y Bont-faen

- 230 o ddisgyblion
- 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Saesneg yw iaith cartrefi mwyafrif llethol y disgyblion
- Rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De (CSC)

Themâu allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys gwahanol ymagwedd tuag at weithredu'r cwricwlwm; Eidaleg; ieithoedd a gwelliant yr ysgol

Astudiaeth Achos 2: Ysgol T Llew Jones, Brynhoffnant

- 197 o ddisgyblion
- 30% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg
- 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Rhanbarth ERW

Themâu allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys *Cerdd Iaith*; Sbaeneg; yr elfennau sy'n cael effaith ar lafared a chyrhaeddiad disgyblion.

Astudiaeth Achos 3: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul, Caerdydd

- 209 o ddisgyblion
- 29% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Saesneg yw prif iaith 63% o'r disgyblion
- Rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De (CSC)

Themâu allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys ceisio cael gafael ar gyllid; Almaeneg; ehangu ymwybyddiaeth o ieithoedd y gymuned.

Astudiaeth Achos 4: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Osbaston, Trefynwy

- 201 o ddisgyblion
- Canran fach iawn o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda'r Saesneg fel iaith ychwanegol
- Rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru (EAS)

Themâu allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag ysgol uwchradd; Almaeneg; rhoi blaenoriaeth i ITM yn yr ysgol.

Astudiaeth Achos 5: Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen Rhoscolyn, Caerdybi

- 106 o ddisgyblion
- Darperir popeth trwy gyfrwng y Gymraeg hyd Flwyddyn 2
- 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Rhanbarth Consortiwm Gogledd Cymru (GCA)

Themâu allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys effaith hyfforddiant; addysg cyfrwng Cymraeg; dysgu gyda'r disgyblion.

ASTUDIAETH ACHOS 1

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari

Y Bont-faen, Bro Morgannwg

Am yr ysgol:

- 230 o ddisgyblion
- 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Saesneg yw iaith cartref mwyafrif llethol y disgyblion

Cefndir

Mae'r ysgol yn angerddol am ddysgu ieithoedd tramor modern ac mae pennaeth yr ysgol a'r cydlynnydd ITM yn siarad Ffrangeg ac Eidaleg.

"Mae ieithoedd yn cymryd eu lle yn y cwricwlwm yn dda iawn, mae angen bod yn greadigol, rydyn ni'n eu cyplysu nhw gydag Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Llythrennedd a Rhifedd gan sicrhau fod y staff yn fwy ymwybodol fod ieithoedd yn bwysig."

Cydlynnydd ITM

Darpariaeth ITM

Datblygodd y syniad o fod yn ysgol ddwyieithog drwy ysbrydoliaeth ysgol yn Llundain a oedd yn cyflwyno Ffrangeg i'w disgyblion o 5 oed ymlaen. Cefnogwyd yr uchelgais yma gan Estyn a'r consortiwm addysg rhanbarthol. Cafodd sgiliau'r staff a chyfleoedd hyfforddiant eu hasesu fel rhan o baratodau cychwynnol y fenter (derbyniodd ddau o'r staff hyfforddiant mewn Almaeneg drwy Erasmus+) a gwnaed cysylltiad gyda chynrychiolydd o Gonsyliaeth yr Eidal a ddaeth i roi gwersi Eidaleg.

Yn 2017-18, cyflwynwyd Eidaleg i'r Dosbarth Derbyn, astudiwyd Almaeneg gan Flynyddoedd 2 a 3, Ffrangeg gan Flynyddoedd 4 a 5, a Sbaeneg gan Flwyddyn 6 – yn cynnwys prosiect pontio gyda'r ysgol uwchradd leol.

Eleni eto mae'r ysgol wedi derbyn cyllid gan Gonsyliaeth yr Eidal i ddysgu Eidaleg i'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Maent yn darparu Almaeneg ym Mlwyddyn 2, Ffrangeg ym Mlwyddoedd 3 a 4, Sbaeneg ym Mlwyddyn 5 a Ffrangeg Mlwyddyn 6.

"Yn sydyn mae dull gweithredu dwyieithog wedi tyfu'n ddull gweithredu amlieithog... roedd hwn yn gychwyn llwyddiannus iawn. Mewn arolwg o farn y disgyblion, dywedodd 86% ohonynt eu bod yn dwlu ar ieithoedd. Roedden nhw eisiau mwy...roedd yn ddefnyddiol iawn i'r staff weld ymateb mor gadarnhaol ac maent wedi bwrw ati i ateb y gofyn ers hynny."

Pennaeth yr Ysgol

Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar ddulliau creadigol o ddysgu ieithoedd. Maent yn integreiddio ieithoedd yn gadarn i'w cwricwlwm, a'u cymathu drwy raglen Dinasyddiaeth Fyd-eang gan gynnwys dathlu Diwrnod Bastille a dathlu Diwrnod Ieithoedd Rhyngwladol trwy ei gyplysu â chelfyddyd ac artistiaid o Ewrop. Yn ogystal â sgiliau iaith, maent am hybu dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol ac maent yn awyddus i'w disgyblion i feddlw am y byd ehangach.

Maen nhw'n cynnal prosiectau am y gofod a glan y môr yn y Cyfnod Sylfaen, gan gyplysu hynny gydag agweddau eraill o'r cwricwlwm a rhoi pwrpas a pherthnasedd i ieithoedd. Mae ganddynt gysylltiadau gydag ysgol yn Ffrainc, ac maent yn meithrin cysylltiadau gydag ysgol yn Sbaen hefyd.

“Rydyn ni'n ebostio ysgolion eraill yn Gymraeg a Ffrangeg. Rydyn ni'n dweud beth yw ein henwau a'n hoedran, sôn am ein hanifeiliaid anwes a beth 'dyn ni'n hoffi ei wneud. Rydyn ni'n sgwennu cân yn Ffrangeg o'r enw 'Bienvenu au Pays De Galles' am y pethau hardd a hyfryd sydd yng Nghymru, ac mae rap yn ddo fe hefyd”

Disgybl

Effaith ar ddisgyblion a'r ysgol

Fel y dangoswyd i'r ymgynghorydd her, mae'r disgyblion yn datblygu safonau da wrth ysgrifennu yn y Gymraeg a Ffrangeg. Maent yn nodi elfennau cyffredin a geiriau cytras; cynnydd sy'n cyd-fynd yn agos â gofynion y cwricwlwm newydd. Amcan ITM yw codi uchelgais a hyder y disgyblion wrth ddysgu ieithoedd. Mae staff sydd wedi derbyn hyfforddiant da yn gwbl allweddol wrth ddarparu ITM.

Mae'r ysgol yn nodi ei bod, wrth recriwtio, wedi canolbwyntio ar athrawon sydd â sgiliau iaith. Mae manteision ychwanegol i hynny yng ngolwg Tîm Arwain yr Ysgol achos, gan amlaf, mae gan yr athrawon hyn well sgiliau llythrennedd a gramadeg hefyd.

Felly mae rhychwant o sgiliau iaith gan ein staff dysgu ac rydyn ni'n eu hannog i'w datblygu a'u cynnal drwy DPP.

“Rydyn ni'n hoffi ieithoedd achos 'dych chi'n gallu mynd i wledydd eraill a chwrdd â phobl, teithio'r byd, gwneud swyddi da fel ffotograffiaeth a phensaerniaeth, 'dych chi'n gallu mynd i dai bwyta 'posh' lle maen nhw'n siarad Ffrangeg neu benderfynu eich bod am symud i wlad arall a bod yn gogydd.”

Disgybl

Cynaliadwyedd yn y dyfodol

Mae'r ddarpariaeth iaith bellach yn rhan o Dargedau Gwelliannau'r Ysgol ac rydym yn adolygu'r cynnydd bob hanner tymor ar gyfer y llywodraethwyr a'r ymgynghorydd her. Hoffai'r ysgol ystyried dosbarthiadau trochi yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio ar barhau gyda'i darpariaeth a'i gweithgareddau fel ysgol hwb. Maen nhw'n nodi y bydd angen cyllid digonol i wireddu ymroddiad a syniadau'r ysgolion wrth barhau i hybu ITM yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd yng Nghymru.

“Gall y cwricwlwm newydd a rhaglen Dyfodol Byd-eang fod yn gatalydd a sbardun i ITM mewn ysgolion os yw'r gefnogaeth gywir yn ei le.”

Pennaeth yr Ysgol

ASTUDIAETH ACHOS 2

Ysgol T Llew Jones Brynhoffnant, Ceredigion

Am yr ysgol:

- 197 o ddisgyblion
- 30% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg
- 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Cefndir

Adeiladwyd yr ysgol yn 2012, gan gyfuno ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Mae 197 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae 30% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Dechreuodd darpariaeth ITM yr ysgol ddwy flynedd yn ôl yn sgil cymryd rhan ym mhrosiect Cerdd Iaith – un o bedair o ysgolion y rhanbarth a gymerodd ran yn y prosiect. Mae elfen ryngwladol wedi bod yn rhan gyson o fywyd yr ysgol; mae wedi cydweithio gydag ysgolion yn Norwy, Sweden ac Iwerddon ar brosiect Comenius (a ariannwyd gan y DU), ac maen nhw hefyd yn cynnal wythnos ryngwladol yn yr ysgol bob blwyddyn.

Darpariaeth ITM

Cyflwynodd yr ysgol y prosiect i Flynyddoedd 5 a 6, gan ddefnyddio dau o athrawon. Doedd y naill athro na'r llall yn siarad unrhyw Sbaeneg cyn cychwyn arni ond ystyriwyd hynny'n ffactor gadarnhaol gan fod y disgyblion a'r athrawon yn dechrau o'r un man ac yn dysgu gyda'i gilydd. Darparwyd amrywiaeth o adnoddau a deunydd dysgu i'r athrawon gan brosiect **Cerdd Iaith**, gan gynnwys caneuon a cherddoriaeth, cardiau fflach a thafleuni gwaith Sbaeneg. Ategwyd y gwaith hwn drwy ymweliad cerddor proffesiynol â'r ysgol.

Hefyd, dan law'r consortiwm addysg cafwyd diwrnod hyfforddiant dan ofal adran Sbaeneg ysgol uwchradd o Abertawe, yn ogystal â chefnogaeth ychwanegol gan British Council Cymru.

“Roedd y cyfuniad o gerddoriaeth a dysgu Sbaeneg yn apelio'n fawr iawn mewn ysgol ddwyieithog. Roedd yn brosiect uchelgeisiol ac roedd yn cyd-fynd â'n hethos a'n dyhead i fod yn ysgol greadigol.”

Pennaeth yr Ysgol

Effaith ar ddisgyblion a'r ysgol

Mae cymryd rhan yn y prosiect wedi cynyddu hyder a hunan-werth y disgyblion ac maent wedi 'ateb yr her'. Mae athrawon wedi nodi effaith gadarnhaol ar sgiliau llafaredd a chyrhaeddiant y disgyblion ac mae rhai wedi symud ymlaen o lefel 3 i lefel 4 wedi dim ond 6 mis o'r prosiect. Mae wedi cynyddu hyder yr athrawon hefyd a'u gwneud yn fwy ymwybodol o ddiwyllianau rhyngwladol ac agor drysau i gyfleoedd newydd gyda British Council Cymru ac ysgolion uwchradd trwy weithgareddau pontio pontio.

“Ro'n i'n teimlo'n gyffrous pan glywais ein bod yn mynd i ddysgu Sbaeneg, ond ychydig yn nerfus achos doeddwn i ddim yn gwybod sut beth ydoedd. Ond fe ymlaciais i'n ddigon buan – 'dych chi'n cael gafael ynddi ac mae hynny'n rhoi hyder i chi...”

Disgybl

Bu heriau hefyd; gan gynnwys ceisio ffeindio amser ar gyfer ITM yn y cwricwlwm a datblygu sgiliau iaith yr athrawon ymhellach. Byddent yn falch iawn o gyfle i arsylwi ar athrawon uwchradd yn dysgu ieithoedd a manteisio ar ragor o gyrsiau hyfforddiant undydd dwys.

“Fe ddaeth Mike y cerddor i'r ysgol i gynnal gweithgareddau gyda ni. Roedd dysgu'r caneuon yn lot o hwyl ac fe wnaethon ni hynny'n Gymraeg, Saesneg a Sbaeneg. Roedd y cyfan yn gwneud synnwyr.”

Disgybl

Cynaliadwyedd yn y dyfodol

Daeth y prosiect i ben yn 2018. Er hynny, mae'r ysgol wedi parhau i ddefnyddio adnoddau *Cerdd Iaith* ac mae Sbaeneg ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6 bellach yn rhan o ddarpariaeth yr ysgol yn hytrach nag un prosiect penodol yn unig. Ym marn pennaeth yr ysgol, 'gall hyn helpu gyda chynnydd a chynaliadwyedd.”

Yn y dyfodol byddent yn hoffi cyflwyno ITM i bob dosbarth, ac o bosib ymestyn y dewis o ieithoedd i gynnwys Ffrangeg ac Almaeneg hefyd. Maen nhw'n credu y gall y dull yma weithio'n llwyddiannus gyda'r cwricwlwm newydd. Ond, bydd angen DPP pellach ar athrawon, i sicrhau eu bod yn ddigon gwybodus i gyflwyno a dysgu'r ieithoedd yma. Mae adnoddau da wedi bod yn greiddiol i'r cynnydd yn nwyieithrwydd yr ysgol, ac mae sgiliau llythrennedd a llafaredd yn allweddol i ffyniant pob disgybl a'u gallu i fynegi eu hunain. Gwelir ITM fel rhan bwysig o'r ffordd yma o weithio.

“Mae darparu ITM yn cyd-fynd yn agos â'r cwricwlwm newydd. Rydyn ni eisiau gwreiddio'r cyfan mewn modd creadigol. Ein nod yw gweld pob disgybl yn gadael yr ysgol yn gwbl ddwyieithog yn Saesneg a Chymraeg, fel y gallant gyplysu'r sgiliau hyn gyda dysgu iaith arall.”

Dirprwy Bennaeth yr Ysgol

ASTUDIAETH ACHOS 3

Ysgol Gynradd yr Egwlys yng Nghymru Sant Paul Caerdydd

Am yr ysgol:

- 209 o ddisgyblion
- 29% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Saesneg yw prif iaith 63% o'r disgyblion

Cefndir

Pan ymunodd siaradwr Almaeneg gyda'r staff dysgu, bu'n sbardun i ddysgu ITM yn yr ysgol. Ers mis Medi 2018 rydym wedi integreiddio Almaeneg i gwricwlwm Blwyddyn 4. Mae Blwyddyn 6 yn dysgu Ffrangeg fel rhan o'u gweithgareddau pontio gyda'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol hefyd wedi ffurfio partneriaeth gydag ysgol yn Hwngari. Rydym hefyd yn darparu clwb Almaeneg allgyrsiol ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6.

Bu'r ysgol yn llwyddiannus gyda chais am arian i'r Goethe Institut, a dalodd am *Language Nut*, adnodd iaith digidol, ac ymweliadau'r cydlynnydd ITM gydag ysgolion eraill. Mae'r Goethe Institut hefyd yn ariannu ymweliad saith o ddisgyblion â'r Institut yn Llundain. Mae pennaeth yr ysgol yn pwysleisio mai 'nid dysgu un iaith benodol yw'r nod' ond dysgu am lawer o wahanol ieithoedd ac elwa yn sgil hynny.

Darpariaeth ITM

Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn dysgu Almaeneg am awr bob wythnos yn ogystal ag Almaeneg 'achlysurol' yn ystod gwersi eraill. Mae'r plant wedi elwa ar adnoddau a ddarparwyd drwy nawdd y Goethe Institut i hybu dysgu drwy ganeuon, gemau, apiau a fideos. Dywedodd y disgyblion eu bod yn mwynhau'r cymeriadau cartŵn a ddefnyddir yn y fideos byr i'w helpu i ddysgu geiriau Almaeneg. Mae gan yr ysgol gysylltiadau drwy Erasmus+ yn Mallorca a Budapest.

Mae 10 o ddisgyblion yn ymweld â Hwngari ym mis Mehefin 2019 ac mae disgyblion y ddwy ysgol yn ysgrifennu at ei gilydd a rhannu caneuon.

Mae'r ysgol hefyd yn rhan o raglen German Connection a bu athro o'r Almaen yn cyfrannu i ddisbarthiadau am wythnos yn ystod ei gyfnod ar leoliad yn yr ysgol.

"Fe allwn ni ddatblygu i fod yn wirioneddol dda gan ein bod ni'n dechrau dysgu pan rydyn ni'n ifancach. Maen nhw'n defnyddio Almaeneg mewn gwlad wahanol, mewn lle gwahanol ac mae dysgu rhywbeth newydd yn brofiad cŵl iawn."

Disgybl

Mae grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn creu rap ar gyfer cystadleuaeth fideo pop Ffrangeg sy'n cael ei chynnal gan yr Instiut Français. Mae'r disgyblion yn ddigon hyderus i roi cynnig ar bob math o wahanol weithgareddau. 'Cael hwyl yn anad dim' yw pwrpas y gweithgareddau hyn.

Mae'r ysgol yn defnyddio *Language Nut* i hybu dysgu ac roedd ymateb y disgyblion yn gadarnhaol iawn am eu profiadau a sut yr oedd y gwahanol ddulliau o ddysgu wedi eu helpu; ee bu dysgu caneuon fel 'Penblwydd Hapus' a 'Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed' yn Almaeneg yn help wrth ddysgu geirfa.

Effaith ar y disgyblion ac ar yr ysgol

Mae rhai disgyblion, sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, yn llwyddo'n arbennig yn Almaeneg gan eu bod 'yn defnyddio eu sgiliau dadgodio'. Mae'r Gymraeg hefyd wedi elwa yn sgil y defnydd o *Language Nut*. Mae'r disgyblion yn mwynhau elfen gystadleuol yr adnodd lle gallant weld sgoriau ysgolion eraill. Nododd y disgyblion fod y gemau yn rhoi prawf arnynt, 'ond mewn ffordd sy'n hwyl' Mae'r plant yn ymwybodol nad oes asesiad o'r Almaeneg, ac maent i'w gweld yn ymlacio wrth fwynhau dysgu'r iaith.

"Rydyn ni'n cael hwyl, mae'r ymateb wedi bod mor gadarnhaol, mae'r disgyblion yn agored i ddysgu iaith newydd [...] Rwy'n credu fod y Gymraeg wedi elwa'n fawr hefyd."

Cydlynnydd ITM

Dyweddodd y plant y byddai dysgu Almaeneg yn help iddynt wrth ddysgu ieithoedd eraill wrth iddynt dyfu'n hŷn. Roedd y disgyblion hefyd yn mwynhau rhannu eu sgiliau newydd gyda'u teuluoedd; gan gynnwys dysgu Cymraeg ac Almaeneg i frodyr a chwiorydd iau 'i'w helpu yn yr ysgol feithrin'.

Mae siaradwyr gwadd o Gymdeithas Caerdydd Stuttgart wedi ymweld â'r ysgol hefyd ac fe drefnwyd cynadleddau fideo i ddisgyblion holi cwestiynau'n Almaeneg i wneuthurwr ffilmiau am fywyd y môr o Awstria.

Cynaliadwyedd yn y dyfodol

Cyhyd â bod lle yn y cwricwlwm newydd i gyflwyno iaith fel pwnc, bydd amser i'w dysgu, ond mae'n mynd i gymryd amser i hynny wreiddio.

Rhyngddynt mae disgyblion yr ysgol yn siarad 27 o ieithoedd ac mae'n fwriad gan yr ysgol i ymestyn ein darpariaeth iaith i gynnwys ieithoedd y gymuned yn ogystal â ITM. Mae angen amser i gynllunio ar athrawon ac mae hynny'n hollbwysig wrth ddarbwyllio aelodau eraill o'r staff, sydd efallai wedi cael profiadau gwael eu hunain o ddysgu ieithoedd, i ddysgu ITM yn yr ysgol. Byddai cyllid ar gyfer hyfforddiant staff yn gymorth mawr.

"Digon hawdd yw cyfeirio at arbenigwr yn yr ysgol, ond mae angen mwy o athrawon sy'n gallu dysgu ieithoedd, ac mae'n bwysig fod athrawon yn deall nad oes rhaid iddyn nhw fod ar ryw lefel benodol i allu dysgu iaith".

Pennaeth yr Ysgol

Gan fod y rhain yn ddyddiau cynnar iawn yn natblygiad y cwricwlwm newydd, mae'r ysgol yn gallu dehongli gofynion y cwricwlwm a rhoi gwedd bersonol arnynt drwy adlewyrchu nodweddion o ddiwylliant ein cymuned leol; ee gwneud yn fawr o Garnifal Grangetown.

"Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig eu bod nhw'n gwybod bod yna fyd mawr allan yna [...] ac rydyn ni wedi ceisio manteisio ar bob cyfle i ddathlu'r ieithoedd a siaredir yng nghartrefi ein disgyblion."

Pennaeth yr Ysgol

ASTUDIAETH ACHOS 4

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Osbaston Trefynwy, Sir Fynwy

Am yr ysgol:

- 201 o ddisgyblion
- Canran fach iawn o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth gyda'r Saesneg fel iaith ychwanegol

Cefndir

Yn 2017 bu'r ysgol yn cydweithio gydag ysgol uwchradd leol ar 'Brosiect y Gryffalo'. Arweiniodd hynny at berfformiad yn Almaeneg o stori'r Gryffalo gan ddisgyblion Blwyddyn 5. Daeth Julia Donaldson, awdur y Gryffalo, i wyllo'r perfformiad ac annog y disgyblion i ddysgu ieithoedd. Parhaodd y disgyblion i ddysgu Almaeneg ar ôl symud i Flwyddyn 6 a bu disgyblion o'r ysgol uwchradd leol yn cynnal clwb Almaeneg amser cinio dan oruchwyliaeth yr athrawes.

"Rwy'n teimo y dylem eu trochi mewn cymaint o wahanol ieithoedd ag y gallwn. Mae nghynllun i'n golygu cyflwyno Ffrangeg i Flynyddoedd 3 a 4, ac Almaeneg i Flynyddoedd 5 a 6. Gan fod gyda ni ychydig mwy o ryddid i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a gan ei fod yn rhan mor allweddol o Feysydd Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, rydyn ni'n awyddus i fod yn rhan o'r elfen ryngwladol honno."

Pennaeth yr Ysgol

Mae athrawes o'r ysgol uwchradd yn darparu gwersi yn ystod cyfnodau CPA yn yr ysgol. Mae'r ysgol uwchradd yn cyflwyno Almaeneg o Flwyddyn 9 ymlaen; ond bu cymaint o frwdfrydedd ymysg y disgyblion a gymerodd ran ym mhrosiect y Gryffalo, pan symudon nhw i'r ysgol uwchradd fe gynigiwyd clwb Almaeneg i Flwyddyn 7.

Derbyniodd yr ysgol arian gan y Goethe Institut i brynu *Language Magician*. I ddechrau cafodd yr ysgol ychydig o drafferth gyda'r dechnoleg wrth geisio sicrhau fod pawb yn gallu bod ar-lein yr un pryd. Ar hyn o bryd, mae ITM yn cael ei ystyried fel elfen sy'n ychwanegol i flaenoriaethau'r ysgol. Ond gyda chyfeiriad y cwricwlwm newydd mae'r ysgol yn bwriadu meithrin ITM fel un o'i blaenoriaethau.

Darpariaeth ITM

Ers mis Ionawr 2019 mae Blwyddyn 5 wedi bod yn derbyn gwersi Almaeneg – yn ystod hanner awr gyntaf y diwrnod i ddechrau. Nod y gwersi oedd galluogi'r disgyblion i ysgrifennu at ddisgyblion mewn ysgol yr oedd eu hathrawes yn ymweld â hi yn yr Almaen. Gan mai'r athrawes CPA sy'n darparu'r gwersi Almaeneg, mae'r fformat yn amrywio o'r bore i'r prynhawn yn ôl amserlen y cyfnodau CPA.

"Roedd Language Magician yn ffordd hwyliog o ddysgu, achos pan 'dych chi'n ifancach 'dych chi eisiau gwneud mwy na dim ond eistedd a 'sgwennu pethau, 'dych chi eisiau dysgu mewn ffordd sy'n hwyl, a dw i'n meddwl eich bod chi'n dysgu'n well pan 'dych chi'n gwneud mwy na dim ond eistedd yno."

Disgybl

Mwynheuodd y plant ddefnyddio *Language Magician* gan nad oedd yn rhy anodd; cyflwynwyd cwestiynnau aml-ddewis, a rhoddwyd yr atebion ar y diwedd. Dywedodd y disgyblion fod defnyddio caneuon Almaeneg yn ffordd hwyliog o ddysgu hefyd. Nododd yr athrawes ITM fod defnyddio caneuon yn gallu helpu i drochi'r disgyblion yn niwylliant yr Almaen. Fe sefydlodd yr athrawes 'ddosbarth' ar app Duolingo'. Fe weithiodd hyn yn dda, ac fe barhaodd y disgyblion i'w ddefnyddio wedi iddynt symud i'r ysgol uwchradd gan eu bod yn gwybod y byddai'r athrawes yn gweld eu sgoriau wythnosol.

"Rwy'n ceisio tanio'r angerdd yna, nid dim ond at yr iaith ond y diwylliant hefyd, a gobeithio y byddan nhw'n cario hynny gyda nhw."

Cydlynnydd ITM

Effaith ar ddisgyblion ac ar yr ysgol

Bu effaith amlwg ar sgiliau trosglwyddadwy'r disgyblion. Nododd yr athrawes Gymraeg fod y disgyblion wedi bod yn esbonio wrthi beth oedd geiriau cytras, wedi iddynt eu trafod yn ystod gwersi Almaeneg.

Mae gemau wedi bod yn ddefnyddiol; mae staff yn defnyddio'r rhain fel rhan o'r gwersi Cymraeg ac maent wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddysgu Almaeneg hefyd ee *Splat*.

"Mae Almaeneg yn rywbeth arall y gallwn ni ei wneud, ac mae'n hwyl dysgu rhywbeth gwahanol ac fe fydd yn help pan fyddwn ni'n henach [...] yn ogystal â dysgu am yr iaith rydyn ni hefyd yn dysgu am y diwylliant a beth mae'n nhw'n ei ddathlu, eu hanes a'u crefydd."

Disgybl

Cynaliadwyedd yn y dyfodol

Flwyddyn nesa bydd Blynyddoedd 5 a 6 yn dysgu Almaeneg, a Blynyddoedd 3 a 4 yn dysgu Ffrangeg. Os mabwysiadir ieithoedd fel un o flaenoriaethau'r clwstwr, fe hoffai'r ysgol arwain ar ITM.

Er bod cyfoeth o adnoddau ar gael, fe fyddai croeso mawr i hyfforddiant; dim ond ar gyfer ysgolion uwchradd y cynigiwyd hyfforddiant ITM fel rhan o gynig dysgu proffesiynol y consortiwm. Mae'r ysgol gynradd, mewn partneriaeth gyda'r ysgol uwchradd, yn aros am arian gan raglen Erasmus+. Hefyd, mae'r athrawes ITM yn gobeithio cael at gyllid ar gyfer hyfforddiant trwy raglen *Dyfodol Byd-eang*, yn enwedig gan y bu ariannu yn y gorffennol ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg.

Fe hoffwn i ei gael (Almaeneg) bob wythnos, a chael hanner awr ar ei gyfer. Fe hoffem ni ei gael yn rhan o'n cwricwlwm achos mae'n hwyl dysgu iaith newydd."

Disgybl

ASTUDIAETH ACHOS 5

Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen Rhoscolyn Caergybi, Ynys Môn

Am yr ysgol:

- 106 o ddisgyblion
- Darperir popeth yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg hyd Flwyddyn 2
- 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Cefndir

Bu'r cydlynnydd ITM ar gwrs hyfforddi a ddarparwyd gan y consortiwm addysg lle cyflwynwyd syniadau a chynlluniau ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno gwersi Ffrangeg i Flynyddoedd 3 a 4 ers mis Hydref 2018 ac i Flynyddoedd 1 a 2 ers mis Ionawr 2019. Bwriedir cyflwyno gwersi i Flynyddoedd 5 a 6 yn ystod Tymor yr Haf 2019. Daw mwyafrif disgyblion yr ysgol o gartrefi Saesneg eu hiaith. Cyflwynir darpariaeth yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn trochi'r disgyblion yn llwyr yn y Gymraeg.

“Rwy'n credu bod Blynyddoedd 3 a 4 yn gyfnod ardderchog i blant ddysgu Ffrangeg. Maen nhw'n fodlon rhoi cynnig arni heb fod yn rhy hunan-ymwybodol na phoeni am wneud camgymeriadau. Mae'n oedran da hefyd achos mae'r plant yn gallu copio a dynwared beth rwy'n ei ddweud yn Ffrangeg. Mae'r gallu dal ganddynt i amsugno popeth a gweld y gwahaniaethau rhwng y dair iaith hefyd.”

Cydlynnydd ITM

Ystyrir ei bod yn haws cyflwyno trydedd iaith o Flwyddyn 3 ymlaen. Erbyn hynny, mae'r plant wedi cyrraedd pwynt lle maent yn gyfforddus gyda'r Gymraeg a'r Saesneg, ac yn barod i fynd i'r afael â Ffrangeg.

Darpariaeth ITM

Mae'r ysgol yn gweld y prosiect fel rhywbeth hwyliog a fydd yn cynyddu gwybodaeth y disgyblion o Ffrangeg yn raddol fel y bydd sylfaen gadarn ganddynt erbyn iddynt ddechrau addysg uwchradd. Mae adnoddau plattform *PowerLanguage* yn profi'n ddefnyddiol iawn ac yn cynnig sylfaen ardderchog i'r rheini sydd heb lawer o brofiad o ITM.

Mae'r adnoddau wedi'u hanelu at blant sydd heb siarad gair o Ffrangeg erioed ac maent wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn.

“Mae gallu'r disgyblion i gofio a chadw gwybodaeth wedi creu cymaint o argraff arnaf. Mae popeth a ddysgon ni, fwy neu lai, wedi gwreiddio. Pan fyddwn ni'n dychwelyd at rywbeth wythnosau'n ddiweddarach, maent yn cofio'r cyfan. Ac mae hynny'n wir am bron bob aelod o'r dosbarth”

Cydlynnydd ITM

Cyflwynir 'sesiynnau llanw' i Flynyddoedd 1 a 2. Pan fyddant wedi cwblhau eu gwaith Cymraeg ysgrifenedig, caiff ychydig o Ffrangeg ei gyflwyno ee : fy enw i ydy, lliwiau. Mae Blynyddoedd 3 a 4 yn cael sesiwn dysgu Ffrangeg am tua hanner awr bob wythnos.

Gyda golwg ar y cwricwlwm newydd, mae'r ysgol wedi dechrau mabwysiadu dulliau addysgu a dysgu mwy creadigol, gan ddefnyddio themau wrth ddysgu.

“Mae elfennau tebyg rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg o ran strwythur brawddegau a'r gwahaniaeth rhwng enwau gwrywaidd a benywaidd. Rydyn ni'n teimlo fod plant yn gallu amsugno'r cyfan a'u bod yn mwynhau'r profiad. Os ydyn nhw'n derbyn ychydig bach yn rheolaidd o gyfnod cynnar, bydd ganddynt hanfodion trydedd iaith erbyn iddynt symud i fyny i addysg uwchradd.”

Cydlynnydd ITM

Effaith ar ddisgyblion ac ar yr ysgol

Mae'r ffocws ar hwyl a dysgu trwy gyfrwng gemau a mwynhau. Mae'r plant i gyd wedi cymryd at y gwersi Ffrangeg. Maen nhw'n cofio mai bore Gwener yw'r amser am Ffrangeg gan gyfarch yr athrawes gyda 'Bonjour Miss'. Mae mwy o bwyslais ar sgiliau llafar ac mae'r plant yn mwynhau hynny. Mae'r disgyblion wedi recordio eu hunain yn cynnal sgysiau byr yn Ffrangeg ac wedi gwrandao yn ôl ar y sgysiau.

Gwnaed argraff fawr ar riant a ymwelodd â'r dosbarth a gweld fod y plant yn gallu dilyn a chymryd rhan mewn sgwrs mewn tair iaith.

Dyweddodd yr athrawes ei bod wedi sylweddoli 'fedwrch chi ddim gwybod popeth'. Mae wedi dysgu am fanteision cael ei llywio gan y disgyblion ac y gall hi fod yn hyderus ynddynt. Mae dysgu ochr yn ochr â'r plant yn brofiad gwerthfawr i'r athrawes.

“Nid yw fy Ffrangeg i'n arbennig o dda. Astudiais Ffrangeg hyd TGAU. Rwy'n credu ei bod hi'n fanteisiol fy mod innau'n dysgu a'u bod nhw'n gwybod hynny. Os ydw i'n gwneud camgymeriad maent yn hapus i fy nghywiro, ac rwyf innau'n hapus iddynt wneud hynny. Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael cydio yn yr awennau am ychydig, ac maent yn teimlo'n falch o hynny. Maen nhw'n cael teimlo mai nhw ydy'r 'boss'.”

Cydlynnydd ITM

Cynaliadwyedd yn y dyfodol

Bellach, mae'r ddarpariaeth Ffrangeg yn cael ei defnyddio fel ffordd o ddangos cryfderau'r ysgol i rieni, a dangos fod yr ysgol yn barod i groesawu pethau newydd. Mae llawer o rieni sy'n ystyried danfon eu plant yno yn ymweld â'r ysgol. Mae gweld y gwersi Ffrangeg yn brofiad calonogol achos maent yn gweld sut y gall dysgu fod yn hwyl a sut mae'r disgyblion yn cymryd rhan fyw a bywiog wrth ddysgu.

“Mae'r gwersi Ffrangeg wedi cyfrannu at hyrwyddo cryfderau'r ysgol i rieni, gan ddangos fod yr ysgol yn barod i groesawu pethau newydd a'n bod ni'n barod i roi cynnig ar weithgareddau gwahanol.”

Pennaeth yr Ysgol
